

# Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Powys (2022-2037)

## Aneddiadau Cynaliadwy a Chymunedau Gwledig Powys

# 4. Dull Gwledig

# Papur Cefndir

Tachwedd 2023

# CYNNWYS

## Cynnwys

**CRYNODEB GWEITHREDOL ............ 4**

**1. CYFLWYNIAD ............ 5**

**2. DULL Y CDLL MABWYSIEDIG O YMDRIN AG ARDALOEDD GWLEDIG ............ 6**

**3. CYD-DESTUN CYNLLUNIO GWLEDIG ............ 8**

Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ............ 8
Rhanbarthol ............ 14
Lleol ............ 15
Strategaethau, ymchwil, prosiectau perthnasol eraill ............ 15

**4. NODI CYMUNEDAU GWLEDIG ............ 21**

Dull 13 ardal leol Powys ............ 21
Dwysedd poblogaeth ............ 22
Maint aneddiadau ............ 24
Ardaloedd adeiledig ac aneddiadau ............ 25
Ardaloedd Twf Rhanbarthol ............ 26
Asesiad Aneddiadau ............ 27
Asesiad Aneddiadau Bach ............ 28
Dadansoddi Clystyrau ............ 29
Casgliadau ar nodi ardaloedd gwledig ............ 30

**5. ANGHENION GWLEDIG ............ 33**

Anghenion tai ............ 33
Poblogaeth sy'n heneiddio / Cymunedau â Chydbwysedd Oedran ............ 36
Cyflogaeth ............ 36
Amaethyddiaeth ............ 37
Twristiaeth ............ 38
Trafnidiaeth ............ 39
Mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau ............ 40
Darpariaeth band eang a symudol ............ 41

**6. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL AC ARGYMHELLION PELLACH ............ 43**

**ATODIAD 1 ANEDDIADAU YN Y CATEGORI GWLEDIG ............ 44**

**ATODIAD 2 ANGEN AM DAIR YN ÔL BANDIAU 1-3 Y GOFRESTR TAI GYFFREDIN ............ 47**

**TABLAU**

**TABL 1 MAINT ANHEDDIAD TREFI'R CDLL ............ 24**

**TABL 2 ANEDDIADAU HAEN UWCH O FEWN A'R TU ALLAN I ARDALOEDD TWF RHANBARTHOL ............ 27**

**TABL 3 CYMHAREB FFORDDIADWYEDD FESUL ARDAL LEOL ............ 34**

**TABL 4 CYNLLUNIAU TAI A ARWEINIR GAN Y GYMUNED YM MHOWYS ............ 35**

**TABL 5 SAFLEOEDD LSOAS O RAN MYNEDIAD AT WASANAETHAU ............ 40**

## FFIGURAU

Ffigur 1 Y Dull 13 Ardal Leol ........ 21
Ffigur 2 Dwysedd Poblogaeth (pobl fesul cilometr sgwâr) fesul Ardal Leol ........ 22
Ffigur 3 Dwysedd Poblogaeth fesul Ardal Leol ........ 23
Ffigur 4 Dwysedd Poblogaeth fesul LSOA ........ 23
Ffigur 5 Map Cymru’r Dyfodol o Ardaloedd Adeiledig ac Aneddiadau ........ 26
Ffigur 6 Map yn Dangos Lleoliad a Dosbarthiad Clystyrau Aneddiadau, ynghyd â Grwpiau Eang a Gorgyffyrddiadau. ........ 30
Ffigur 7 Lleoliad ardaloedd gwledig y tu allan i glystyrau ........ 32
Ffigur 8 Prisiau Tai Cyfartalog (trefol a gwledig) ym Mhowys ers mabwysiadu’r CDLl ........ 33

## Crynodeb Gweithredol

Lluniwyd y papur cefndir hwn yn rhan o'r sail dystiolaeth i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Powys ac mae'n canolbwyntio ar y dull i'w ddilyn i ddatblygu ardaloedd gwledig yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Powys. Bydd yn darparu tystiolaeth i hysbysu datblygiad y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n edrych ar y cyd-destun cynllunio ar gyfer ardaloedd gwledig ac opsiynau o ran sut i nodi ardaloedd gwledig cyn nodi'r dull mwyaf addas ar gyfer Powys ac yna asesu eu hanghenion.

Mae strategaeth Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Powys yn gwasgaru twf newydd yn gymesur ar draws ardal y Cynllun i ddiwallu anghenion tai, manwerthu a chyflogaeth, gan ganolbwyntio datblygiad yn y Trefi a'r Pentrefi Mawr a nodwyd a sicrhau bod datblygiad mewn ardaloedd llai cynaliadwy yn cael ei reoli'n agos.

Mae'r cyd-destun cynllunio wedi newid ers mabwysiadu'r CDLl yn 2018, yn enwedig oherwydd cyhoeddiad 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040'. Mae'r ddogfen hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer cymunedau gwledig ac ystyried y cydbwysedd i'w sicrhau rhwng canolbwyntio datblygiad yn y prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a chyflwyno polisïau sy'n eu cefnogi.

Mae'r papur yn ystyried ffyrdd posibl o nodi ardaloedd gwledig, gan gynnwys defnyddio'r dull 13 ardal leol, dwysedd poblogaeth, maint aneddiadau, ardaloedd adeiledig ac Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Fodd bynnag, ystyrir bod y dulliau hyn yn rhy syml gan na fyddent yn cydnabod y graddau amrywiol o wledigrwydd yn ardal CDLl Powys. Cesglir mai'r ffordd fwyaf priodol o nodi ardaloedd gwledig yw drwy nodi'r aneddiadau hynny sydd y tu allan i'r clystyrau aneddiadau fel y'u nodir yn y papur cefndir Dadansoddi Clystyrau. Bydd ardaloedd gwledig yn cael eu diffinio fel yr aneddiadau hynny nad ydynt o fewn clystyrau aneddiadau. Gan ddefnyddio'r dull hwn, mae 85 o aneddiadau yn y categori gwledig ac fe'u rhestrir yn Atodiad 1 y papur hwn.

Mae'r papur yn mynd ymlaen i asesu anghenion ardaloedd gwledig o ran tai, yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, cyflogaeth, amaethyddiaeth, twristiaeth, trafnidiaeth, mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, a darpariaeth band eang a symudol.

Caiff y papur ei gloi gydag argymhellion ar gyfer datblygu fframwaith o fewn y CDLl Newydd sy'n diwallu anghenion ardaloedd gwledig Powys trwy:

- Ddarparu cyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol a mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn a'r rhai ag anableddau tra'n sicrhau cymunedau cytbwys o ran oed.
- Darparu'r gallu i ddarparu cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a diwallu anghenion busnesau gwledig lleol.
- Cefnogi sector amaethyddol sy'n ffynnu â'r cyfle ar gyfer arallgyfeirio priodol.
- Sicrhau bod datblygiadau twristiaeth yn cael eu lleoli'n briodol ac yn gynaliadwy.
- Cefnogi datblygiad cysylltiadau cynaliadwy o fewn a rhwng aneddiadau gwledig.
- Diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.
- Gwella cysylltedd digidol ac opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd y papur cefndir hwn yn rhan o'r sail dystiolaeth i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Powys ac mae'n canolbwyntio ar y dull i'w ddilyn i ddatblygu ardaloedd gwledig yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Powys. Mae'n edrych ar y cyd-destun cynllunio ar gyfer ardaloedd gwledig ac opsiynau o ran sut i nodi ardaloedd gwledig cyn asesu eu hanghenion. Mae hefyd yn gwneud argymhellion ar sut y gall y CDLl Newydd gefnogi ardaloedd gwledig.

1.2 Y papur hwn yw'r pedwerydd mewn cyfres o bapurau cefndir cysylltiedig sy'n archwilio'r fframwaith ar gyfer Aneddiadau Cynaliadwy a Chymunedau Gwledig ledled Powys. Mae'n dilyn ymlaen o'r papur Asesu Aneddiadau Bach a'r papurau cefndir Dadansoddi Clystyrau sy'n cydnabod y swyddogaeth y mae aneddiadau bach, haen is yn ei chyflawni yn ardal ACLl Powys a'u dosbarthiad. Mae'r Asesiad Aneddiadau Bach yn nodi'r aneddiadau llai hynny sydd o bosibl yn addas i hwyluso twf cyfyngedig yn y dyfodol i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig, o ran eu lleoliad, eu swyddogaeth a'u perthynas ag anheddiad trefn uwch fel y nodwyd yn yr hierarchaeth aneddiadau gychwynnol.

### Diben

1.3 Diben y ddogfen yw hysbysu'r dull i'w fabwysiadu gan y CDLl Newydd o ddatblygu ardaloedd gwledig. Bydd yn darparu tystiolaeth i hysbysu'r Strategaeth a Ffefrir.

### Nod

1.4 Nod y papur hwn yw bodloni'r gofynion cychwynnol a nodir mewn polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yng nghyswllt ardaloedd gwledig. Mae 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer cymunedau gwledig ac ystyried y cydbwysedd i'w sicrhau rhwng canolbwyntio datblygiad mewn prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a chyflwyno polisïau sy'n eu cefnogi.

1.5 Mae'r papur hwn yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o nodi ardaloedd gwledig Powys ac archwilio'r anghenion. Bydd y fframwaith polisi yn datblygu ar gam diweddarach yn y broses llunio Cynllun.

### Strwythur

Mae **Adran 2** yn cyflwyno dull CDLl Mabwysiedig Powys o ymdrin ag ardaloedd gwledig.
Mae **Adran 3** yn edrych ar newidiadau i'r cyd-destun cynllunio gwledig ers mabwysiadu'r CDLl.
Mae **Adran 4** yn cyflwyno gwahanol ffyrdd o nodi ardaloedd gwledig.
Mae **Adran 5** yn asesu anghenion ardaloedd gwledig.
Mae **Adran 6** yn cyflwyno argymhellion ar gyfer y CDLl Newydd.

# 2. Dull y CDLl mabwysiedig o ymdrin ag ardaloedd gwledig

2.1 Mae strategaeth CDLl Mabwysiedig Powys yn gwasgaru twf newydd yn gymesur ar draws ardal y Cynllun i ddiwallu anghenion tai, manwerthu a chyflogaeth, gan ganolbwyntio datblygiad mewn trefi a phentrefi mawr a sicrhau bod datblygiad mewn ardaloedd llai cynaliadwy yn cael ei reoli'n agos. Mae strategaeth ofodol y CDLl yn seiliedig ar hierarchaeth aneddiadau gynaliadwy a lefelau o ddatblygiad yn cael eu neilltuo i aneddiadau yn gymesur â'u maint (nifer yr aelwydydd) a'u lleoliad yn yr hierarchaeth. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn cynnwys:

**1. Trefi**
**2. Pentrefi Mawr**
**3. Pentrefi Bach**
**4. Aneddiadau Gwledig**
**5. Cefn Gwlad Agored gan gynnwys yr arfordir sydd heb ei ddatblygu**

2.2 Mae polisïau strategol 'SP5 – Hierarchaeth Aneddiadau' ac 'SP6 – Dosbarthiad Twf ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau' yn cyflwyno'r hierarchaeth aneddiadau gynaliadwy a lefel a dosbarthiad twf ar gyfer y gwahanol haenau. Mae'r Strategaeth Ofodol yn cyfeirio twf at y Trefi a'r Pentrefi Mawr, tra bod datblygiad ar yr haenau is yn cael ei reoli'n ofalus gan sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal cymunedau gwledig, diwallu anghenion yn lleol a diogelu asedau naturiol ardal y Cynllun.

2.3 Cyfeirir twf at yr aneddiadau (Trefi a Phentrefi Mawr) mwyaf cynaliadwy ar frig yr hierarchaeth, sy'n gweithredu fel canolfannau gwasanaeth ar gyfer eu cymunedau ehangach. Y tu allan i'r aneddiadau mwy hyn, yn aneddiadau haen is Pentrefi Bach, Aneddiadau Gwledig a chefn gwlad agored, mae polisïau yn galluogi graddfeydd llai o ddatblygiad i ddiwallu anghenion lleol ac i gefnogi'r economi leol. Mae'r CDLl yn cydnabod natur wledig y Sir ac yn galluogi cyfleoedd ar gyfer datblygiad priodol i gynnal cymunedau gwledig.

2.4 Mae Pentrefi Bach yn darparu amrywiaeth gul o wasanaethau a chyfleusterau lleol. Defnyddir dull polisi mewn Pentrefi Bach i alluogi a rheoli datblygiad tai marchnad agored a fforddiadwy graddfa fach. Mae Polisi H1 y CDLl yn caniatáu tai marchnad o ddim mwy na dau annedd ar safleoedd mewnlenwi mewn Pentrefi Bach, a gall cynlluniau tai fforddiadwy hefyd gael eu cyflwyno fel estyniadau rhesymegol i'r anheddiad. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu cynlluniau cymysg o dai fforddiadwy a marchnad ar safleoedd mewnlenwi.

2.5 Aneddiadau Gwledig yw'r aneddiadau o'r maint lleiaf a phrin, os o gwbl, yw'r gwasanaethau sydd ganddynt. Ni enwir yr aneddiadau hyn gan y CDLl, yn hytrach, mae angen bodloni meini prawf penodol er mwyn i anheddiad gymhwyso fel Anheddiad Gwledig:

- Aneddiadau a gydnabyddir / enwir yn hanesyddol; ac
- Yn cynnwys o leiaf 10 annedd wedi'u grwpio'n agos.

· Ni ddylid cymryd y cyfrifiad o anheddau ym mhwynt bwled 2 uchod i gynnwys ffermdai, adeiladau gwledig wedi'u haddasu neu anheddau a ganiatawyd yn wreiddiol ar gyfer meddiannaeth angen lleol/fforddiadwy neu amaethyddol/gwledig

2.6 Ystyrir bod Aneddiadau Gwledig yn addas ar gyfer datblygiad cyfyngedig i sicrhau tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol trwy gartrefi fforddiadwy unigol, lle maent wedi'u

hintegreiddio'n dda i'r anheddiad ac yn dderbyniol o ran cyfyngiadau amgylcheddol a chapasiti seilwaith.

2.7 Bydd Cefn Gwlad Agored yn cael ei ddiogelu rhag datblygiad amhriodol. Mae polisïau cynllunio cenedlaethol yn galluogi Anheddau Gweithwyr Mentrau Gwledig a Datblygiadau Un Blaned i gael eu caniatáu pan ellir cyfiawnhau hynny. Cefnogir ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddibenion economaidd a phreswyl hefyd pan ellir cyfiawnhau hynny.

2.8 O ran y dosbarthiad o dwf tai, rhagwelwyd y byddai 10% o dwf tai'r Cynllun mewn Pentrefi Bach a disgwyliwyd dim mwy na 15% o dwf tai'r Cynllun mewn Aneddiadau Gwledig a Chefn Gwlad Agored wedi'u cyfuno. Roedd y CDLl, felly, yn rhagweld twf cyfyngedig mewn Pentrefi Bach ac ardaloedd gwledig.

2.9 Ar adeg adolygu'r CDLl, daethpwyd i'r casgliad bod strategaeth dwf a dyraniadau tai y CDLl wedi methu â darparu nifer y tai a ddisgwyliwyd i fodloni'r gofyniad anheddau o 4,500. Roedd angen adolygu'r strategaeth dwf felly. Nodwyd bod y ddarpariaeth ofodol o dai yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r dosbarthiad gofodol o dwf a nodwyd yn CDLl mabwysiedig Powys. Felly, o ran y Strategaeth Ofodol, roedd yn ymddangos bod polisïau strategol SP5 ac SP6 y CDLl yn gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, cydnabuwyd y bydd yr ailystyriaeth o'r Strategaeth Dwf yn golygu y bydd hefyd angen ailystyried sut mae twf yn cael ei ddosbarthu drwy'r Strategaeth Ofodol.

# 3. Cyd-destun Cynllunio Gwledig

3.1 Bu newidiadau sylweddol i'r cyd-destun cynllunio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Ebrill 2018.

3.2 Mae'r adran hon yn crynhoi prif elfennau polisïau, canllawiau, strategaethau, ymchwil a phrosiectau sy'n berthnasol i ardaloedd gwledig.

## Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

### Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)

3.3 Mae'r Ddeddf hon yn cyflwyno diben statudol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru. Mae'n rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio arfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

3.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'n sefydlu saith nod llesiant y bwriedir iddynt lunio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru, fel a ganlyn:

1. Cymru Lewyrchus
2. Cymru Gydnerth
3. Cymru Iachach
4. Cymru sy'n Fwy Cyfartal
5. Cymru o Gymunedau Cydlynus;
6. Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
7. Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

3.5 Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Pum Dull o Weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi eu dilyn wrth gyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn gofyn am ystyriaeth o gynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol bennu amcanion llesiant a rhoi ystyriaeth i Gynlluniau Llesiant.

### Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 (mabwysiadwyd Chwefror 2021)

3.6 Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu â strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, datgarboneiddio a sicrhau hinsawdd gadarn, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant cymunedau Cymru.

3.7 Mae Cymru'r Dyfodol yn cyflwyno uchelgeisiau ar ffurf 11 o ganlyniadau i'w cyflawni erbyn 2040. Nod Canlyniad 2 yw sicrhau Cymru lle mae pobl yn byw mewn llefydd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau. Cyflwynir y weledigaeth ganlynol ar gyfer ardaloedd gwledig yng Nghymru:

> 'Mewn ardaloedd gwledig, caiff cyfleoedd gwaith a gwasanaethau cymunedol eu cefnogi, er mwyn helpu i ddenu a chadw pobl. Sicrheir cydbwysedd rhwng datblygu a diogelu cymeriad Cymru wledig, gan sicrhau y bydd i'n trefi a'n pentrefi bach ddyfodol disglair fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Bydd yr economi wledig yn ffynnu a bydd cymunedau wedi'u cysylltu'n dda yn ddigidol ac yn ffisegol'.

3.8 Mae Polisi 1 Cymru’r Dyfodol yn nodi lle disgwylir i Gymru dyfu ac yn cefnogi twf cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Mae’n nodi Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac Ardaloedd Twf Rhanbarthol, a fydd yn rhoi canolbwynt ar gyfer twf graddfa fawr. Mae hefyd yn datgan y dylai datblygiad a thwf mewn trefi a phentrefi mawr mewn ardaloedd gwledig fod o faint priodol a chefnogi dyheadau ac angen lleol.

3.9 Esbonnir nad yw Cymru’r Dyfodol yn ceisio nodi’r union leoliad ar gyfer datblygiad lleol na maint y twf mewn aneddiadau unigol, ac mai’r haenau rhanbarthol a lleol yw’r lefel fwyaf priodol ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn, gan gynnwys cymunedau fel y maent yn gwneud hynny.

3.10 Mae Cymru’r Dyfodol yn cynnwys dau bolisi sydd â’r nod benodol o gefnogi ardaloedd gwledig:

**Polisi 4 Cefnogi Cymunedau Gwledig**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a gosod polisïau sy'n eu cefnogi. Dylai polisïau ystyried sut y gellir cyflawni cymunedau cytbwys o ran oedran, lle dylid gwrthdroi diboblogi ac ystyried rôl tai fforddiadwy a marchnad newydd, cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau lleol a mwy o symudedd wrth ateb yr heriau hyn.**

**Polisi 5 Cefnogi’r Economi Wledig**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig sydd wedi'i gynllunio ac a reolir drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth yn deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion i arallgyfeirio; busnesau newydd a microfusnesau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol iawn i ddatblygu sectorau a busnesau technoleg arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, er mwyn helpu ardaloedd gwledig i wireddu eu potensial llawn, gan ehangu'r sail economaidd a chreu swyddi cyflog uwch.**

3.11 Caiff y prif ofynion yn ymwneud ag ardaloedd gwledig ar gyfer CDLl Newydd Powys, yn ôl Cymru’r Dyfodol, eu crynhoi fel a ganlyn:

- Datblygu polisïau sy’n cefnogi ardaloedd gwledig.
- Pan fo cynlluniau yn nodi twf mewn ardaloedd gwledig, mae’n rhaid iddo fod yn briodol ac yn gymesur i anghenion yr anheddiad a’r ardal wledig ehangach y mae’n ei gwasanaethu.
- Nodi cymunedau gwledig gan ddefnyddio dealltwriaeth o faterion a daearyddiaeth yr ardal i baratoi diffiniadau priodol.
- Asesu anghenion ardaloedd gwledig.
- Ystyried sut y gellir sicrhau cymunedau â chydbwysedd oed.
- Ystyried lle dylid gwrthdroi diboblogi.
- Ystyried swyddogaeth tai fforddiadwy a marchnad newydd, cyfleoedd gwaith, gwasanaethau lleol a mwy o symudedd wrth fynd i’r afael â’r heriau hyn.
- Cynllunio’n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth yn deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion i arallgyfeirio; busnesau newydd a microfusnesau.

- Ystyried polisïau ar gyfer lleoliadau gwledig sy’n agos at ardaloedd trefol mawr a lleoliadau gwledig mwy anghysbell, oherwydd efallai na fydd yn briodol gweithredu polisïau yn gyfartal i’r ddau fath o leoliad.
- Cydnabod yr heriau sy’n wynebu cymunedau gwledig a chyflwyno polisïau i fynd i’r afael â nhw.
- Ystyried y rhan y gall tai, ardaloedd cyflogaeth a gweithio gartref, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, lleoliadau addysgol, gwasanaethau brys, siopau a seilwaith ei chwarae i fynd i'r afael â heriau a helpu i greu lleoedd mwy cynaliadwy.
- Mae aneddiadau gwledig cynaliadwy yn fannau hygyrch ac wedi'u cysylltu'n dda â'r ardaloedd gwledig maent yn eu gwasanaethu.
- Cefnogi gwelliannau i gysylltedd o fewn a rhwng aneddiadau gwledig.
- Cyflwyno polisïau a meini prawf i alluogi arallgyfeirio priodol.
- Mynd i'r afael â'r angen a'r cyfle am bob math o gyflogaeth addas ledled ardaloedd gwledig, gan sicrhau y darperir safleoedd priodol a bod cysondeb â strategaethau cynaliadwy a thwf wedi'i gynllunio ar gyfer aneddiadau, gan gynnwys ar gyfer seilwaith, tai a gwasanaethau.
- Gweithio gyda darparwyr cyfathrebu digidol i sicrhau bod anghenion ardaloedd gwledig yn cael sylw ac y cynllunnir ar eu cyfer trwy bolisïau.

3.12 Mae Cymru’r Dyfodol yn mabwysiadu dull pedwar rhanbarth, â siroedd Powys a Cheredigion yn ffurfio rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae rhan Powys o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd wedi’i chynnwys yn rhanbarth Canolbarth Cymru. Nodir yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol canlynol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru, y disgwylir iddynt dyfu, datblygu a chynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol:

- Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan;
- Aberhonddu a’r Gororau;
- Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt;
- Bro Hafren, gan gynnwys: y Trallwng a’r Drenewydd;
- Aberystwyth.

3.13 Mae Cymru’r Dyfodol yn darparu fframwaith datblygu cenedlaethol y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol yn adeiladu arno. Mae’n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydymffurfio â Cymru’r Dyfodol.

## Polisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 11, Chwefror 2021)

3.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn ceisio sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n pennu tybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn ystyried mai dull a arweinir gan Gynllun yw’r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy drwy’r system gynllunio. Mae ganddo bwyslais cryf ar hyrwyddo creu lleoedd, a ystyrir yn hollbwysig i sicrhau lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau cymdeithasol gynhwysol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynus. Ystyrir bod creu lleoedd yn ddull cyfannol sy’n ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau (tudalen 14).

3.15 Esbonnir o dan ‘Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig’ (paragraffau 3.38 i 3.40) y dylid gwarchod ardaloedd gwledig a, phan fo’n bosibl, eu gwella er budd eu gwerth ecolegol, daearegol, ffisiograffegol, hanesyddol, archaeolegol, diwylliannol ac amaethyddol ac ar

gyfer eu tirwedd a'u hadnoddau naturiol. Dylid cydbwyso cadwraeth ag anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau gwledig ac ymwelwyr.

3.16 Nodir bod yn rhaid i leoedd gwledig fod yn hyblyg ac yn gydnerth i gynnal cymunedau bywiog a sicrhau bod gwasanaethau ar gael. Mae ardaloedd gwledig yn wynebu heriau fel effaith y newid yn yr hinsawdd, ond gall helpu i liniaru ei effeithiau trwy warchod dalfeydd carbon ac fel lleoliadau ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy addas a phriodol yn unol â nod llesiant Cymru Gydnerth.

3.17 Mewn ardaloedd gwledig, mae cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir a chynyddu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig. Dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd mewn aneddiadau sydd â hygyrchedd da trwy ddulliau yn hytrach na'r car. Dylai datblygiad groesawu canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a, phan fo'n bosibl, cynnig cysylltiadau teithio llesol i ganol aneddiadau i leihau'r angen i deithio.

3.18 Cynghorir y dylai awdurdodau ddynodi canolfannau gwasanaethau lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad gweithredol cynaliadwy, fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau newydd gan gynnwys tai a darpariaeth cyflogaeth. Dylai'r dull gael ei gefnogi gan gynlluniau darparu gwasanaethau darparwyr gwasanaethau lleol.

3.19 Esbonnir o dan 'Yr Economi Wledig' (Adran 5.6) y dylai Awdurdodau Cynllunio, pan fo angen yn cael ei nodi, neilltuo safleoedd gwledig newydd ar gyfer datblygu economaidd mewn cynlluniau datblygu. Yn y mwyafrif o achosion, mae safleoedd datblygu newydd yn debygol o fod yn fach a dylid eu lleoli o fewn neu nesaf at ffiniau aneddiadau diffiniedig yn gyffredinol, lle ceir darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn ddelfrydol. Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu i ystyried cynigion pan fyddant y tu allan i ffiniau anheddiad.

3.20 Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu ar bob lefel gyd-fynd a pholisïau cynllunio cenedlaethol.

## Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010)

3.21 Mae'r TAN hwn yn darparu canllawiau ymarferol ac yn cynnwys cyngor ar sut y gall y system gynllunio gyfrannu at economïau gwledig cynaliadwy, tai gwledig cynaliadwy, gwasanaethau gwledig cynaliadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

3.22 O ran 'lleoli datblygiadau', esbonnir y dylai cynlluniau datblygu gyflwyno'r weledigaeth ofodol ar gyfer cymunedau gwledig ac y dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r cysylltiadau gweithredol yn yr ardal a'r potensial ar gyfer gwella cynaliadwyedd patrwm presennol yr anheddiad. Cydnabyddir ei bod yn "bosibl datblygu mewn nifer o gymunedau gwledig, yn enwedig i ddiwallu anghenion lleol".

3.23 Pan fwriedir i gynigion datblygu ddiwallu anghenion lleol, dylai awdurdodau cynllunio gydnabod y gallai safle fod yn dderbyniol er efallai nad yw'n hygyrch ac eithrio trwy gar preifat. Dylai datblygiadau na fwriedir iddynt ddarparu'n bennaf ar gyfer anghenion lleol barhau i gael eu lleoli mewn trefi marchnad, canolfannau gwasanaeth lleol neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad gweithredol cynaliadwy ac sy'n hygyrch trwy drafnidiaeth gyhoeddus.

3.24 Mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig lle ceir cyfyngiadau amgylcheddol neu ystyriaethau cymdeithasol neu ddiwylliannol, efallai y bydd awdurdodau cynllunio yn dymuno

rhoi blaenoriaeth i dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, trwy nodi'r pentrefi a'r clystyrau llai hynny lle bydd datblygiad tai yn y dyfodol wedi'i gyfyngu i'r categori tai fforddiadwy hwn.

3.25 Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys canllawiau ar Anheddau Mentrau Gwledig, sy'n galluogi gweithwyr mentrau gwledig i fyw yn eu gweithleoedd neu'n agos atynt, lle cyfiawnheir hynny gan dystiolaeth gefnogol. Mae hefyd yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer Datblygiadau Un Blaned sy'n cynnwys ffurf enghreifftiol o ddatblygiad cynaliadwy ac effaith isel a ddylai ddarparu ar gyfer anghenion gofynnol y trigolion o ran incwm, bwyd, ynni a chymhathu gwastraff. Darperir cyngor manwl pellach yn yr Arweiniad Ymarferol Anheddau Mentrau Gwledig (2011) ac yn Arweiniad Ymarferol Datblygiadau Un Blaned (2012).

### Nodyn Cyngor Technegol 23 – Datblygu Economaidd (Chwefror 2014)

3.26 Mae'r TAN hwn yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau economaidd mewn ardaloedd gwledig, o Ddosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8 o gyflogaeth i amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth a hamdden. Mae'n cefnogi dull dilyniannol o ymdrin â safleoedd cyflogaeth newydd mewn cynlluniau datblygu i sicrhau eu bod yn cael eu lleoli'n gynaliadwy, ond mae'n cydnabod efallai y bydd angen i rai busnesau presennol ehangu yn y fan a'r lle mewn lleoedd llai cynaliadwy. Lle ellir ei gyfiawnhau, dylid llunio polisi seiliedig ar feini prawf i fynd i'r afael â darpariaeth gyflogaeth heb ei dyrannu.

3.27 Mae'r TAN yn cefnogi darpariaeth band eang a mathau eraill o seilwaith technoleg i gefnogi economïau gwledig. Mae'n cefnogi ail-ddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig presennol lle maent yn diwallu anghenion ardaloedd gwledig ar gyfer datblygiad masnachol a diwydiannol, a thwristiaeth, chwaraeon a hamdden.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13 – Twristiaeth (Hydref 1997)

3.28 Mae'r TAN hwn yn darparu canllawiau ar ystyried twristiaeth mewn cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'n cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru a'i gyfraniad at gyflogaeth mewn amrywiaeth eang o alwedigaethau gan gynnig manteision i economïau lleol mewn ardaloedd trefol a gwledig.

3.29 Dylai cynlluniau datblygu roi sylw i faterion a godir gan dwristiaeth, a phan fo'n briodol helpu i alluogi cyfleusterau yng nghefn gwlad neu ardaloedd dynodedig neu gefnogi prosiectau graddfa fwy neu arloesol, lle gellir eu cyfiawnhau, yn y lleoliadau iawn.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 Chwaraeon a Hamdden (2009)

3.30 Mewn ardaloedd gwledig, mae'r TAN hwn yn cynghori y dylai cyfleusterau hamdden gael eu lleoli mewn aneddiadau neu nesaf atynt. Byddai unrhyw ddatblygiadau arfaethedig yng nghefn gwlad agored angen cyfiawnhad arbennig. Gallai cynigion priodol yn gysylltiedig ag arallgyfeirio ffermydd gael ystyriaeth ffafriol.

3.31 Mae'n annog mynediad at gefn gwlad i gefnogi'r economi wledig, gwasanaethau cymunedol, trafnidiaeth gyhoeddus a, phan fo'n gysylltiedig â hamdden, fel modd o wella iechyd a llesiant.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 Trafnidiaeth (2007)

3.32 Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno nod Llywodraeth Cymru o hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru a'r materion trafnidiaeth i'w hystyried wrth ddatblygu polisi cynllunio ac asesu ceisiadau cynllunio.

3.33 O ran ardaloedd gwledig, cynghorir y dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau mewn lleoedd sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio. Yn rhan o strategaeth aneddiadau'r

cynllun datblygu, dylai awdurdodau cynllunio ystyried nodi canolfannau gwasanaeth lleol allweddol, a allai gynnwys tref marchnad, pentref mawr neu grŵp o bentrefi â chysylltiad agos. Canolfannau gwasanaeth o'r fath ddylai fod y lleoliadau a ffefrir ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth. Bydd nodi canolfannau gwasanaeth allweddol yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio a sicrhau bod yr angen i deithio i ganolfannau mwy cyn lleied â phosibl. Mae'n cynghori y dylai awdurdodau lleol ystyried pa un a oes angen gwahanol ddulliau polisi yn dibynnu ar agosrwydd ardaloedd gwledig i ganolfannau trefol.

3.34 Gweler Papur 5 'Strategaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth Integredig' am ragor o wybodaeth am y pwnc hwn.

### Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)

3.35 Yn dilyn pandemig Covid-19, mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn cyflwyno blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn y cyfnodau adfer ar ôl Covid-19. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r angen am ddatblygiadau da, o ansawdd uchel sydd wedi'u llywio gan egwyddorion creu lleoedd.

- Cadw'n lleol: creu cymdogaethau;
- Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ail-ddarganfyddir;
- Adfywio canol ein trefi;
- Lleoedd digidol - rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud;
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol;
- Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru;
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol;
- Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles.

3.36 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynigion ar gyfer cymunedau newydd (mewn ardaloedd gwledig a threfol) a safleoedd tai integreiddio â gwasanaethau a seilwaith presennol a, phan fo angen darpariaeth ychwanegol, o ganlyniad i'r datblygiad, i hon gael ei hwyluso. O ran ardaloedd gwledig, mae hefyd yn pwysleisio'r angen i'r system gynllunio gefnogi:

- Darpariaeth gwasanaeth digidol newydd mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.
- Darpariaeth gwasanaethau lleol gan fanwerthwyr neu fusnesau llai mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Cyfleoedd twristiaeth a diwylliant sy'n sicrhau manteision cymunedol mewn ardaloedd arfordirol a gwledig.

### Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth, 2020)

3.37 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 yn darparu canllawiau yn ymwneud â pharatoi a gweithredu Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a chynlluniau Lleoedd.

3.38 Mae'n esbonio bod yr asesiad aneddiadau yn ddarn allweddol o dystiolaeth ar gyfer y strategaeth ofodol i hysbysu penderfyniadau polisi ar le i leoli datblygiadau:

3.39 Dylai'r ACLl gynnal asesiad aneddiadau i hysbysu penderfyniadau ynghylch lle dylid lleoli datblygiadau yn ofodol i sicrhau patrwm cynaliadwy o dwf, i sicrhau cyn lleied â phosibl o batrymau anghynaliadwy o ran symudiad pobl ac i gefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol.

### Dull Llywodraeth Cymru o Reoli Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr

3.40 Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull tair ochr i fynd i'r afael ag effaith perchnogaeth ail gartrefi ar gymunedau yng Nghymru. Bydd y dull yn canolbwyntio ar:

• Gymorth – mynd i'r afael â fforddiadwyedd tai a nifer y tai sydd ar gael;

• Fframwaith a system rheoleiddio – yn cwmpasu cyfraith gynllunio a chyflwyno cynllun cofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau;

• Cyfraniad tecach – defnyddio systemau trethu cenedlaethol a lleol i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad teg ac effeithiol at y cymunedau lle maent yn prynu.

3.41 Daeth newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio i rym ar 20 Hydref 2022 y bwriedir iddynt alluogi dull lleol o fynd i'r afael â'r hyn a ystyrir sy'n broblem leol, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol a gwledig.

3.42 Mae'r newidiadau deddfwriaethol yn cynnwys creu Dosbarthiadau Defnydd newydd/diwygiedig ar gyfer Prif Gartrefi, Cartrefi Eilaidd a Llety Gwyliau Tymor Byr. Caniateir newidiadau rhwng y Dosbarthiadau Defnydd hyn o dan ddatblygu a ganiateir, sy'n golygu nad oes angen caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, lle maent wedi'u cefnogi gan dystiolaeth, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol weithredu cyfarwyddiadau Erthygl 4 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd anheddau presennol rhwng y dosbarthiadau defnydd hyn. Gellid defnyddio amodau cynllunio hefyd i gyfyngu'r defnydd o anheddau newydd i brif breswylfeydd.

3.43 Bydd diwygiadau hefyd yn cael eu gwneud i Bolisi Cynllunio Cymru i'w gwneud yn eglur bod yn rhaid, pan fo'n berthnasol, cymryd cyffredinrwydd ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr i ystyriaeth wrth ystyried gofynion tai, fforddiadwyedd a dulliau polisi ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol.

3.44 Bwriad y newidiadau hyn yw galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddatblygu polisïau a defnyddio cyfarwyddiadau ac amodau Erthygl 4 i fynd i'r afael ag amgylchiadau lleol, lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ail gartrefi/llety gwyliau tymor byr yn niweidio amwynder lleol, llesiant cymunedol neu gynllunio priodol mewn ardal benodol.

3.45 Gweler y papur Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr am ragor o wybodaeth ar gyfer Powys.

## Rhanbarthol

### Datganiad Ardal Canolbarth Cymru

3.46 Datblygwyd Datganiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer pob rhanbarth. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal leol benodol honno, yr hyn y gallwn ei wneud i ymateb i'r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol roi sylw i'r Datganiad Ardal a luniwyd ar gyfer yr ardal.

3.47 Mae Datganiad Ardal Canolbarth Cymru yn cwmpasu ardaloedd Awdurdod Lleol Powys a Cheredigion gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y de, Ucheldiroedd y Berwyn yn y gogledd a Mynyddoedd Cambria yn ffurfio cadwyn ganolog i lawr y canol. Mae'r Datganiad yn cyfeirio at y trefi marchnad gwledig a phentrefi clos yr

ardal, y dirwedd, adnoddau dŵr, dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol, a'r economi wledig yn seiliedig ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.

3.48 Mae'r Datganiad yn cyflwyno 5 thema ardal, y gellir eu darparu ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru, gan gynnwys yr ardaloedd gwledig:
Gwella bioamrywiaeth – ymateb i'r argyfwng natur
Tir, dŵr ac aer cynaliadwy
Ailgysylltu Pobl a Lleoedd – Gwella Iechyd, Llesiant a'r Economi
Adnoddau coedwigaeth – rheoli adnoddau pren yn effeithiol
Newid yn yr hinsawdd – ymaddasu a lliniaru ar draws pob un o'r pedair thema

3.49 Mae Datganiadau Ardal yn cynnig tystiolaeth o faterion amgylcheddol ac adnoddau naturiol a dylid eu defnyddio yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd ac wrth gyflawni dyletswydd yr ACLI i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau cynllunio.

## Lleol

### Asesiad Llesiant Powys (2022)

3.50 Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys Asesiad Llesiant, sy'n canolbwyntio ar anghenion cyffredinol y boblogaeth o dan bedair thema allweddol:

- Cymdeithasol
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd
- Diwylliant

3.51 Mae'r Asesiad yn amlygu gwledigrwydd fel ystyriaeth allweddol i'r holl nodau llesiant gan ei fod yn bresennol ym mhob un o'r themâu. Mae'r materion a amlygwyd yn cynnwys yr argyfwng costau byw, dibyniaeth ar danwydd solet, trafnidiaeth gyhoeddus, ynysigrwydd ac unigrwydd, mynediad at wasanaethau, tai fforddiadwy, darpariaeth band eang, darpariaeth rhwydwaith symudol, cyfleoedd economaidd cyfyngedig, mynediad at fannau gwyrdd, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

3.52 Mae'r Asesiad yn cyflwyno'r dull 13 ardal leol sy'n rhannu'r Sir yn 13 ardal leol wedi'u canolbwyntio ar y prif drefi. Edrychir ar ddata yn seiliedig ar ardal leol, sy'n galluogi dealltwriaeth a chymhariaeth rhwng ardaloedd lleol.

## Strategaethau, ymchwil, prosiectau perthnasol eraill

### *Living Locally in Rural Wales – Planning Policy and Practice Discussion Paper*, RTPI Cymru (2022)

3.53 Mae'r papur hwn yn archwilio'r cysyniad o fyw'n lleol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a pha un a ellir gweithredu'r egwyddorion canllaw sy'n sail i'r model cymdogaeth 15 munud mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell. Mae hefyd yn archwilio pa ran y gall y system gynllunio ei chwarae o ran cefnogi byw lleol mwy cynaliadwy yng Nghymru wledig, nid yn unig i annog llai o ddibyniaeth ar gerbydau modur a chefnogi datgarboneiddio, ond hefyd i annog yr arfer ehangach o greu lleoedd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru.

3.54 Mae'r papur yn gwneud sawl argymhelliad:

- Cadw a chryfhau polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n hyrwyddo egwyddorion byw'n lleol i sicrhau canlyniadau datblygu cynaliadwy.
- Symud y system gynllunio i fesur perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau i gefnogi'r ddarpariaeth o leoedd cynaliadwy ar lawr gwlad.
- Mae pwysau ariannu wedi cael effaith sylweddol ar awdurdodau lleol gwledig a'r ddarpariaeth o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Ceir dadl gref i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol o ran annog a chynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod gan y gwasanaethau pwysig hyn adnoddau digonol.
- Cefnogi gwaith ar y cyd sy'n cynnwys cynllunwyr, partneriaid eraill, asiantaethau a sectorau, i gysoni nodau strategol, blaenoriaethau a chanlyniadau buddsoddi a dangosyddion ar y cyd, i hwyluso effaith ystyrlon.
- Dylid datblygu arloesiadau digidol a thechnolegol ynghylch cefnogi'r lleol pan fo'n bosibl, yn hytrach na defnydd parhaus o ganolfannau rhanbarthol neu genedlaethol mwy ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n gofyn am gludiant sylweddol ac sy'n osgoi gwasanaethau lleol a ddim yn cefnogi'r economi leol. Mae gan gynllunio ran i'w chwarae o ran cefnogi'r agenda leol ehangach hon trwy gynllunio datblygiadau a gwneud penderfyniadau.
- Ystyriaeth bellach a chyllid wedi'i dargedu ar gyfer cysylltu lleoliadau gwledig â gwasanaethau a chyfleusterau. Er enghraifft, archwilio hawliau tramwy cyhoeddus / llwybrau ceffylau / llwybrau beiciau ac ati newydd neu well a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus.
- Adnoddau, hyfforddiant a chymorth ar gyfer dulliau cynllunio lleol fel Cynlluniau Lleoedd wedi'u harwain gan y gymuned, ymgysylltu cymunedol ac ati. Byddai adnoddau mewn cymunedau, cynghorau tref a chymuned ac awdurdodau cynllunio lleol yn cynorthwyo i wella dealltwriaeth ac yn darparu'r gallu a'r capasiti i gefnogi gweithio cydgysylltiedig.
- Rhannu adnoddau ac arferion da ar draws awdurdodau gwledig, yn debyg i'r hyn sydd wedi digwydd o ran cartrefi gwyliau a llety gwyliau tymor byr yng Nghymru.
- Ymchwilio, trafod a dysgu parhaus o ran sut y gall cynllunio gefnogi byw cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig ac effeithiau a chanlyniadau byw'n lleol yng Nghymru wledig.

### Papur Esboniadol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Ardaloedd Gwledig (Rhagfyr 2019)

3.55 Lluniwyd y papur hwn gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (sydd wedi datblygu i fod yn Cymru'r Dyfodol) er mwyn nodi sut mae'r FfDC drafft yn ceisio mynd i'r afael â materion gwledig ledled Cymru, gan amlygu'r dystiolaeth allweddol sydd wedi hysbysu elfennau gwledig y cynllun. Mae'n nodi strategaethau, polisïau a chanlyniadau ymchwil allweddol Llywodraeth Cymru sydd wedi hysbysu datblygiad Polisi 4 Cymru'r Dyfodol, Cefnogi Cymunedau Gwledig.

### Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Mawrth 2019)

3.56 Diben yr astudiaeth oedd datblygu sail dystiolaeth ar gyfer pob rhanbarth FfDC, i nodi ardaloedd gwledig eang a'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y dylai'r FfDC ganolbwyntio ar:

- Mewn ardaloedd gwledig, dylai tai ac aneddiadau newydd gael eu cysylltu gan ddulliau teithio cynaliadwy â chyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyflogaeth.

- Diffinio ardaloedd twf ac ystyried darpariaeth seilwaith ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i gefnogi datblygu cynaliadwy.
- Asedau twristiaeth, dylid cysylltu'r amgylchedd naturiol a chyrchfannau ymwelwyr â dulliau teithio cynaliadwy, â mynediad rhwydd trwy gerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus ac yna'r car.
- Dylid hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg, gan gydnabod amrywiadau ar draws rhanbarthau, trwy nodi ardaloedd blaenoriaeth a pholisïau a fyddai'n atal colled ac yn cynnig y cyfle ar gyfer twf yn y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Dylid blaenoriaethu seilwaith digidol mewn ardaloedd gwledig i hwyluso gweithio gartref, cydlyniant cymunedol, addysg ar-lein, a lleihau'r angen i deithio.
- Dylid cysylltu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig â seilwaith a chreu lleoedd, gan gysylltu cymunedau a chyfleusterau addysg gydag ardaloedd o gyflogaeth.
- Dylai seilwaith trafnidiaeth gysylltu pobl â safleoedd a gwasanaethau allweddol a diogelu'r rhwydwaith ar gyfer y dyfodol gyda seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig.
- Dylid mabwysiadu dull integredig o ymdrin â datblygu ynni, lle mae anghenion cymunedau lleol, capasiti'r grid, hygyrchedd ac ystyriaethau rheoli tir yn cael eu cymryd i ystyriaeth.
- Dylai cynllunio gefnogi dull hyblyg o ymdrin â'r diwydiant amaethyddol a datblygiad a galluogi mathau priodol o arallgyfeirio.
- Nodi lle mae angen seilwaith i gefnogi arallgyfeirio gwledig ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

3.57 Hysbysodd y dystiolaeth hon ddatblygiad Cymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol 2040.

### Papur Ymchwil *Rural Planning in the 2020s* y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (Gorffennaf 2022)

3.58 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn archwilio'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig ledled y DU ac yn Iwerddon yn y 2020au, gan gynnwys heriau allweddol ynghylch y farchnad dai wledig, y sector amaethyddol, newid demograffig, Covid-19, Brexit a'r Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n ceisio mynd i'r afael â sut y bydd angen i gynllunio gwledig newid i ymdrin â'r heriau hyn, yn ogystal â sut y gall cymunedau gwledig gyflawni amcanion polisi ac ymarfer ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy. Atodir y papur gan gyfres o adroddiadau technegol yn cyflwyno'r dystiolaeth a'r canfyddiadau o bob cam o'r prosiect – Adolygiadau Thematig; Dadansoddiad o'r Farchnad Dai; Dadansoddiad Bord Gron; Asesiadau Polisi Cenedlaethol; ac Astudiaethau Achos a Phapurau Gwyntyllu.

### *Rural housing delivery in Wales: How effective is rural exception site policy* (Ionawr 2019)

3.59 Gwnaed y gwaith ymchwil hwn a gomisiynwyd gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru gan Brifysgol Cymru i ddeall swyddogaeth a defnydd polisïau safleoedd eithriedig gwledig yng Nghymru. Mae argymhellion yr Adroddiad yn ymwneud â'r angen i egluro canllawiau a gwella data, i ehangu hyblygrwydd lleol, i gynyddu cefnogaeth ar gyfer darparu, ac i archwilio ymhellach effaith tai'r farchnad. Mae argymhellion yr Adroddiad yn amlygu'r angen am:

- Eglurder ynghylch data a diffiniadau ar ganiatâd safleoedd eithriedig gwledig tai fforddiadwy a darpariaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol.

- Eglurder ynghylch cyfeiriadau at safleoedd eithriedig gwledig a safleoedd eithriedig tai fforddiadwy, sy'n aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol.
- Canllawiau pellach ar ddatblygu agweddau rheoli safleoedd eithriedig.
- Awdurdodau Lleol i ystyried cael gwared ar gyfyngiadau ar y math o ddarparwr tai a all ddatblygu, a hefyd ystyried cael gwared ar gapiau penodol ar nifer yr unedau y gellir eu darparu, ar safleoedd eithriedig gwledig.
- Archwilio swyddogaeth Banc Datblygu Cymru o ran darparu morgeisi ar gyfer tai fforddiadwy am byth.
- Pecyn cymorth tai fforddiadwy gwledig i gael ei ddatblygu sy'n esbonio prosesau safleoedd eithriedig gwledig, ymgysylltiad a chysylltiadau ag opsiynau a dulliau tai fforddiadwy eraill.

3.60 Daeth yr Adroddiad i'r casgliad hefyd nad oedd unrhyw dystiolaeth gymhellol i awgrymu bod croes-gymhorthdal i dai marchnad yn darparu mwy o dai fforddiadwy, ond y dylid parhau i adolygu hyn. Lle mae croes-gymhorthdal yn cael ei gyflwyno, dylai hwn fod yn destun cap uchafswm o 25% o dai marchnad, cyfyngiadau ar arwynebedd tir ar gyfer tai marchnad, isafswm absoliwt o unedau tai fforddiadwy, ac i dai fforddiadwy gael eu datblygu ar yr un pryd â thai marchnad.

## Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Ionawr 2021)

3.61 Mae Fforwm Gwledig CLlLC, sydd wedi'i gyfansoddi o naw awdurdod lleol gwledig Cymru (gan gynnwys Powys), yn galw ar y Senedd a Llywodraeth Cymru am fwy o bwyslais ar ardaloedd gwledig. Mae'r Weledigaeth hon yn cynnwys amrywiaeth o gynigion polisi a gofynion allweddol ynghylch arallgyfeirio'r sail economaidd, cadw ieuenctid cefn gwlad, ychwanegu gwerth at seilwaith gwledig, twristiaeth gynaliadwy, tai i adlewyrchu anghenion cymunedol lleol, trefi clyfar a chadwyni cyflenwi.

3.62 Mae'r adroddiad tystiolaeth sy'n cefnogi'r Weledigaeth yn cyflwyno proffil economaidd-gymdeithasol a diwylliannol seiliedig ar dystiolaeth o Gymru wledig, sy'n nodi cyfres o wahanol dueddiadau a thrywyddau (sydd weithiau'n ymddangos yn groes i'w gilydd) yn ardaloedd gwledig Cymru:

1. Poblogaeth wledig sydd wedi cynyddu dros yr ugain mlynedd ddiwethaf â phwyslais ar dwf poblogaeth mewn ardaloedd gwledig mwy hygyrch ac yn enwedig mewn trefi gwledig;
2. Gostyngiad i'r boblogaeth mewn nifer sylweddol o wardiau gwledig - â'r gostyngiad poblogaeth wedi'i ganolbwyntio mewn cymunedau arfordirol ac wedi'i briodoli'n rhannol i nifer gynyddol o ail gartrefu a chartrefi gwyliau yn yr ardaloedd hyn;
3. Mudo i mewn o rannau eraill o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig fu'r ysgogiad pwysicaf mewn ardaloedd gwledig â phoblogaeth sy'n cynyddu;
4. Mae gan ardaloedd gwledig yng Nghymru broffil oed hŷn nag ardaloedd trefol yng Nghymru – a cheir heneiddio demograffig cynyddol nodedig i boblogaeth Cymru wledig dros amser. Mae hyn yn arwain at rai wardiau gwledig â 30-40 y cant o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn;
5. Pwysigrwydd y sector cyhoeddus a diwydiannau gwasanaeth i economïau gwledig yng Nghymru;
6. Gostyngiad i gyflogaeth uniongyrchol ym maes amaethyddiaeth yn ardaloedd gwledig Cymru ac eto â rhai economïau gwledig lleol yn parhau i fod â chyflogaeth uniongyrchol llawer uwch na'r cyfartaledd ym maes amaethyddiaeth;
7. Goruchafiaeth ffermio da byw yn y sector amaethyddol yng Nghymru a'r mwyafrif o ffermydd yng Nghymru yn cael eu diffinio fel rhai bach iawn;
8. Crynodiad uchel o bwysau a manteision twristiaeth mewn rhannau dethol o Gymru;

9. Gwerth sylweddol iawn gwasanaethau cyfalaf naturiol ac ecosystem a ddarperir gan ardaloedd gwledig;
10. Y gyfran sylweddol o arwynebedd tir Cymru sydd wedi'i dynodi fel Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau) a rhai o'r heriau y mae hyn yn eu hachosi i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, arallgyfeirio economaidd, a darparu tai fforddiadwy;
11. Heriau cynyddol hyfywedd ariannol o ran darparu amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i gymunedau gwledig yng Nghymru, ochr yn ochr â dibyniaeth ar ddefnydd o gerbydau modur preifat i gyrraedd y gwasanaethau hyn;
12. Gostyngiad i gyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg mewn cymunedau gwledig yng Nghymru.

## Cwmpas – Prosiect Cymunedau'n Creu Cartrefi

3.63 Asiantaeth ddatblygu yw Cwmpas (a adnabuwyd fel Canolfan Cydweithredol Cymru gynt), a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Nationwide Foundation sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Y nod yw cynyddu cyfran yr economi sydd wedi'i chyfansoddi o fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i gyflogeion trwy gynnig cymorth a chefnogaeth ar draws amrywiaeth o wasanaethau. Mae eu Prosiect Cymunedau'n Creu Cartrefi yn cynnig cefnogaeth a chyngor i sefydliadau newydd a phresennol sy'n dymuno datblygu cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru. Ei nod yw datblygu ac ysgogi galw am y dull tai cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned ledled Cymru gyfan.

3.64 Mae tai cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned yn golygu dod â phobl at ei gilydd i benderfynu pa fathau o gartrefi a chymunedau y maent yn dymuno byw ynddynt ac i greu cartrefi fforddiadwy i ddiwallu anghenion cymunedol lleol. Mae'n cynnwys amrywiaeth o wahanol opsiynau tai, ac mae'r modelau nodweddiadol yn cynnwys Mentrau Tai Cydweithredol, Cyd-drigo, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol, Sefydliadau Rheoli Tenantiaid, a Datblygiad Un Blaned. Gall gynnwys adeiladu cartrefi newydd, creu cartrefi o eiddo gwag, diogelu cartrefi fforddiadwy gweddus a darparu cartrefi o bob math o ddeiliadaeth.

3.65 Mae gan dai a arweinir gan y gymuned swyddogaeth o ran arallgyfeirio opsiynau darparu tai ac i gefnogi'r dystiolaeth o ran anghenion tai mewn ardaloedd gwledig, tra hefyd yn cyfrannu at adfywio, creu lleoedd a chydlyniant cymunedol. Mae'n cynnig y potensial i ddatblygu cynlluniau graddfa fach mewn mannau na fyddai datblygwyr masnachol yn eu hystyried ar gyfer tai, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.

3.66 Mae adroddiad sy'n asesu manteision posibl byw mewn tai cydweithredol a/neu a arweinir gan y gymuned yn cynnwys yr argymhellion canlynol sy'n cael sylw drwy'r Prosiect hwn:

- Hoffent i'r gwaith ymchwil roi dealltwriaeth eglur o dai a arweinir gan y gymuned i lunwyr polisi a chynllunwyr.
- Annog mwy o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ystyried eu swyddogaeth o ran galluogi mwy o gynlluniau tai a arweinir gan y gymuned ledled Cymru.
- Annog i unrhyw dir sector cyhoeddus sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer datblygu cartrefi fforddiadwy i gynnwys dyraniad o dai a arweinir gan y gymuned, lle ceir diddordeb 'lleol'.
- Sicrhau bod polisïau a strategaethau tai yn cyfeirio at Dai a Arweinir gan y Gymuned fel 'opsiwn tai' ac yn eu cydnabod felly.

3.67 Yn '*Community-Led Housing: a Key Role for Local Authorities*', mae'r Co-operative Councils' Innovation Network yn ystyried y potensial i dai a arweinir gan y gymuned gyfrannu at sawl blaenoriaeth strategol leol. Mae blaenoriaethau strategol a nodir yn y ddogfen yn cynnwys y canlynol:

• Gwella'r gyflenwad tai a'r ddarpariaeth o gartrefi fforddiadwy.
• Cefnogi adfywio a dychwelyd cartrefi gwag i ddefnydd.
• Grymuso cymunedau fel eu bod yn dod yn fwy hunangynhaliol.
• Cynnwys trigolion yn y gwaith o fynd i'r afael â'r angen am dai.

3.68 Ceir tri pheth sydd eu hangen ar grwpiau a sefydliadau tai a arweinir gan y gymuned:

1. cymorth i gefnogi'r cam o sefydlu'r grŵp yn y lle cyntaf;
2. tir a pholisïau cynllunio cefnogol gan awdurdodau lleol; a
3. arian.

# 4. Nodi Cymunedau Gwledig


4.1 Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol nodi eu cymunedau gwledig. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylai awdurdodau cynllunio fod yn hyderus wrth nodi pa ardaloedd sy'n wledig, gan ddefnyddio eu dealltwriaeth o faterion a daearyddiaeth ardal i baratoi diffiniadau priodol. Mae lleoliad gwledig sy'n agos at ardaloedd trefol mawr yn dioddef gwahanol broblemau o'i gymharu â lleoliad gwledig mwy anghysbell. Efallai na fydd yn briodol i bolisïau gael eu gweithredu ar gyfer y ddau fath o leoliad yn gyfartal.

4.2 Mae'r adran hon yn edrych ar ffyrdd posibl o nodi cymunedau gwledig yn Ardal ACLI Powys.

## Dull 13 ardal leol Powys

4.3 Defnyddir y dull 13 ardal leol gan Gynllun Llesiant Powys ac yn gorfforaethol i edrych ar ddata yn ofodol. Mae'r ardaloedd lleol wedi'u canolbwyntio ar drefi mwyaf Powys a'u cyffiniau. Darperir map o'r 13 ardal leol yn Ffigur 1 isod:

### Ffigur 1 Y Dull 13 Ardal Leol




Ffynhonnell: Asesiad Llesiant Powys (2022)

4.4 Defnyddir y dull hwn yn gorfforaethol ar gyfer dadansoddiad geo-ofodol i gael gwell dealltwriaeth o anghenion trigolion. Mae'n cydnabod y berthynas rhwng prif drefi Sir Powys a'u hardaloedd gwledig cyfagos. Yn ôl y dull hwn, gellid diffinio cymunedau gwledig fel yr ardaloedd hynny sydd y tu allan i'r prif drefi ar gyfer pob Ardal Leol.

4.5 Mae'r 13 ardal leol yn cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o dystiolaeth y CDLI Newydd, sef yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel.


4.6 Mae Banc Gwybodaeth Llesiant Powys yn darparu data a mapiau rhyngweithiol a gyflwynir ar lefel Ardal Leol ac ar sail haenau Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a bennir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Dwysedd poblogaeth

4.7 Gellir defnyddio dwysedd poblogaeth fel dangosydd o wledigrwydd. Oherwydd maint daearyddol mawr Powys a phoblogaeth fach, mae gan Bowys ddwysedd poblogaeth o 26 o bobl fesul cilometr sgwâr, sy'n golygu mai Powys yw un o'r mannau mwyaf prin ei boblogaeth yn y DU. Mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio ar draws y 13 ardal leol a'r Drenewydd yw'r ardal leol â'r boblogaeth fwyaf dwys (78 o bobl fesul cilometr sgwâr) a Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd yw'r ardal leol fwyaf prin ei phoblogaeth (11 o bobl fesul cilometr sgwâr).

4.8 Cymerir y siart yn Ffigur 2 a'r map yn Ffigur 3 o Fanc Gwybodaeth Llesiant Powys. Mae'r rhain yn dangos mai ardaloedd lleol 'Y Drenewydd', 'Y Trallwng a Threfaldwyn' ac 'Ystradgynlais' sydd â'r dwyseddau poblogaeth uchaf yn y Sir, ac mae gan ardaloedd eraill o'r Sir boblogaeth sylweddol lai fesul cilometr sgwâr. Dangosir dwysedd poblogaeth ar lefel LSOA yn Ffigur 4 ac mae'r ardaloedd tywyllaf yn adlewyrchu lleoliad trefi mwyaf Powys.

### Ffigur 2 Dwysedd Poblogaeth (pobl fesul cilometr sgwâr) fesul Ardal Leol





Ffynhonnell: Banc Gwybodaeth Llesiant Powys yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021

### Ffigur 3 Dwysedd Poblogaeth fesul Ardal Leol



Ffynhonnell: Banc Gwybodaeth Llesiant Powys yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021

### Ffigur 4 Dwysedd Poblogaeth fesul LSOA



Ffynhonnell: Banc Gwybodaeth Llesiant Powys yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021

4.9 Yn seiliedig ar ddwysedd poblogaeth, gellid dosbarthu ardaloedd lleol 'Y Drenewydd', 'Y Trallwng a Threfaldwyn' ac 'Ystradgynlais' (Ffigur 3) fel yr ardaloedd mwyaf trefol, â'r holl ardaloedd lleol eraill yn fwy gwledig eu natur. Fodd bynnag, mae hyn yn anwybyddu'r ffaith fod dwysedd poblogaeth yn amrywio'n sylweddol o fewn pob ardal leol. Trwy edrych ar y lefel LSOA fwy manwl (Ffigur 4), byddai hyn yn nodi'r prif drefi ym Mhowys fel rhai sydd â dwysedd poblogaeth cymharol uchel o'u cymharu â'u hardaloedd gwledig cyfagos. Nodir bod dwysedd poblogaeth hefyd yn gymharol uchel ar hyd ffin gogledd-ddwyreiniol y Sir nesaf at Swydd Amwythig.

4.10 Ni fyddai'r dull hwn yn briodol oherwydd nid dwysedd poblogaeth yw'r unig ffactor sy'n dynodi gwledigrwydd.

## Maint aneddiadau

4.11 Mae Cymru'r Dyfodol yn esbonio bod rhannau mawr o Gymru yn wledig o ran cymeriad ac mae 40% o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau â llai na 10,000 o bobl. Nodir maint aneddiadau holl aneddiadau'r CDLI a ddiffinnir fel Trefi, yn ôl Cyfrifiad 2021, yn Nhabl 1. SYLWER: Gallai'r rhif hwn fod yn wahanol i ffynonellau eraill gan ei fod yn seiliedig ar nifer yr eiddo o fewn ffiniau datblygiadau. Gan ddefnyddio'r trothwy o 10,000 o drigolion, y Drenewydd fyddai'r unig anheddiad a fyddai'n cael ei ystyried yn drefol o ran cymeriad. Byddai gweddill y Sir yn cael ei ystyried yn wledig o ran cymeriad. Mae Tabl 1 yn dangos amrywiad sylweddol o ran maint Trefi'r CDLI.

### Tabl 1 Maint Anheddiad Trefi'r CDLI

| Anheddiad | Maint yr anheddiad |
|---|---|
| Y Drenewydd | 11,006 |
| Ystradgynlais | 7,376 |
| Y Trallwng | 5,935 |
| Llandrindod | 4,907 |
| Llanfair-ym-Muallt | 2,766 |
| Llanidloes | 2,741 |
| Trefyclo | 2,728 |
| Machynlleth | 2,139 |
| Llanandras | 1,905 |
| Rhaeadr | 1,867 |
| Y Gelli Gandryll* | 1,675 |
| Llanfyllin | 1,119 |
| Llanfair Caereinion | 976 |

| | |
|---|---|
| Trefaldwyn | 967 |
| Llanwrtyd | 611 |

*mae prif ran yr anheddiad ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB)


4.12 Ni ystyrir bod y dull hwn yn briodol oherwydd, eto, dim ond un dangosydd o wledigrwydd yw poblogaeth.

## Ardaloedd adeiledig ac aneddiadau

4.13 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys map o ardaloedd adeiledig ac sy'n defnyddio Dosbarthiad Gwledig-Trefol Ystadegau Gwladol i nodi'r ardaloedd llai prin a mwyaf prin eu poblogaeth yng Nghymru – gweler Ffigur 5. Mae canolbarth a gorllewin Cymru yn fwy prin eu poblogaeth ac yn wledig o ran cymeriad, tra bod yr ardaloedd deheuol a gogleddol yn llai prin eu poblogaeth ac yn fwy trefol o ran cymeriad. Mae'r rhan fwyaf o Sir Powys yn y categori mwyaf prin ei phoblogaeth, ac eithrio rhai rhannau i'r de o Aberhonddu yn PCBB sy'n llai prin eu poblogaeth, gan gynnwys yr ardal o gwmpas Ystradgynlais.

4.14 Ni ystyrir bod y dull hwn yn briodol gan nad yw'n adlewyrchu'r amrywiad o ardaloedd adeiledig ac aneddiadau ar draws ardal yr ACLI.

## Ffigur 5 Map Cymru'r Dyfodol o Ardaloedd Adeiledig ac Aneddiadau




Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol

## Ardaloedd Twf Rhanbarthol

4.15 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardaloedd Twf Rhanbarthol, y disgwylir iddynt dyfu, datblygu a chynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol. Nodir yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol canlynol yn Sir Powys:

- Aberhonddu a'r Gororau;
- Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt;
- Bro Hafren, gan gynnwys: y Trallwng a'r Drenewydd.

4.16 Bydd angen i'r CDLl Newydd gynllunio ar gyfer twf yr ardaloedd hyn, tra'n sicrhau bod twf y tu allan i'r ardaloedd hyn yn cael ei reoli ac yn briodol ar gyfer maint ac anghenion yr ardal y tu allan i'r Ardal Twf Rhanbarthol. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen gwahanol strategaeth mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol o'u cymharu ag ardaloedd eraill o ardal CDLl Powys.

4.17 Mae'r dull hwn yn cynnig ffordd o wahaniaethu rhwng yr aneddiadau haen uwch y nodwyd eu bod yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol a'r rhai mewn mannau eraill yn ardal y Cynllun, fel y dangosir yn Nhabl 2.

### Tabl 2 Aneddiadau Haen Uwch o Fewn a'r Tu Allan i Ardaloedd Twf Rhanbarthol

| O Fewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol | Y Tu Allan i Ardaloedd Twf Rhanbarthol |
|---|---|
| Y Drenewydd | Machynlleth |
| Y Trallwng | Llanfyllin |
| Llanidloes | Llanfair Caereinion |
| Llandrindod | Trefaldwyn |
| Llanfair-ym-Muallt | Trefyclo |
| Rhaeadr | Llanandras |
| | Llanwrtyd |
| | Ystradgynlais |
| | Y Gelli Gandryll (yn rhannol y tu allan i PCBB) |

4.18 Ystyrir bod y dull hwn yn rhy syml oherwydd bod gan rai aneddiadau mewn ardaloedd gwledig gysylltiadau cryf â'r aneddiadau haen uwch.

## Asesiad Aneddiadau

4.19 The Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad Aneddiadau gael ei gynnal yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLl Newydd er mwyn nodi'r aneddiadau mwyaf addas ar gyfer twf. Mae'r Asesiad Aneddiadau yn edrych ar swyddogaeth y 15 Tref a'r 43 Pentref Mawr fel y'u nodwyd yn CDLl Mabwysiedig Powys (2018).

Mae'r Asesiad Aneddiadau wedi asesu swyddogaeth pob Tref a Phentref Mawr yn ardal y CDLl. Mae'r asesiad yn seiliedig ar y bedair egwyddor ganlynol:

> **Egwyddor 1 –** Lefel y drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd mewn aneddiadau ac yn eu cyffiniau;
>
> **Egwyddor 2 –** Y cyfleusterau a'r gwasanaethau lleol sydd ar gael mewn aneddiadau ac yn eu cyffiniau;
>
> **Egwyddor 3 –** Lefel y cyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau ac yn eu cyffiniau; ac
>
> **Egwyddor 4 –** Darpariaeth band eang.

4.20 Mae'r haen gyntaf o aneddiadau yn cynnwys trefi mwy y Drenewydd, y Trallwng, Llandrindod, Machynlleth, Llanfair-ym-Muallt, Trefyclo ac Ystradgynlais, sy'n sgorio uchaf yn

erbyn y Pedair Egwyddor. Mae hyn yn adlewyrchu eu swyddogaeth fel canolfannau gwasanaethau a chyflogaeth a hybiau trafnidiaeth ar gyfer eu cefnwledydd gwledig ac aneddiadau cyfagos llai.

4.21 Mae'r ail haen yn cynnwys deg anheddiad pellach sy'n sgorio'n dda: Llanidloes, Llanandras, Rhaeadr, Llanfyllin, Llanfair Caereinion, Llanwrtyd, y Gelli Gandryll, Trefaldwyn, Llandysilio, ac Aber-miwl, ac er nad ydynt yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau a chyfleusterau fel y trefi mwy, maent hefyd yn gweithredu fel hybiau ar gyfer eu cefnwlad wledig gyfagos naill ai drwy'r ddarpariaeth o wasanaethau neu gyfleoedd cyflogaeth.

4.22 Mae'r sgôr trydedd haen yn cynnwys yr aneddiadau sy'n weddill na sgoriodd cystal. Rhoddir ystyriaeth bellach i briodoldeb aneddiadau Haen 3 yn y papur 'Dadansoddi Clystyrau', sy'n edrych yn fwy manwl ar sut mae aneddiadau llai yn gysylltiedig ag aneddiadau Haen 1 a Haen 2.

4.23 Gellid diffinio aneddiadau ac ardaloedd y tu allan i'r dair haen uchaf o anheddiad fel rhai gwledig. Fodd bynnag, ni fyddai'r dull hwn yn cydnabod y ffaith bod gan rai aneddiadau bach lefelau cynaliadwy o wasanaethau i gefnogi eu hunain a/neu gysylltiadau gweithredol cryf ag aneddiadau haen uchaf.

## Asesiad Aneddiadau Bach

4.24 Yn ogystal â'r papur cefndir Asesiad Aneddiadau, paratowyd papur sy'n edrych ar yr aneddiadau yn is i lawr hierarchaeth aneddiadau gychwynnol y CDLI Newydd, sy'n gyfanswm o 104 o aneddiadau bach.


4.25 Mae'r tri chategori yn yr Asesiad Aneddiadau Bach yn cyfansoddi haenau pedwar i chwech yr hierarchaeth aneddiadau.

4.26 Gellid diffinio aneddiadau haenau pedwar i chwech fel rhai gwledig. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn cydnabod agosrwydd a chysylltiad rhai aneddiadau bach ag aneddiadau haenau uwch.

## Dadansoddi Clystyrau

4.27 Mae'r papur Dadansoddi Clystyrau yn adeiladu ar y papurau Asesiad Aneddiadau ac Asesiad Aneddiadau Bach er mwyn nodi Clystyrau Aneddiadau. Mae'n nodi pa aneddiadau haenau 3 i 5 sy'n ffurfio clwstwr ag aneddiadau Haen 1 neu Haen 2 yn seiliedig ar gysylltiadau gweithredol. Mae'r dull yn nodi cysylltiadau gweithredol rhwng aneddiadau trwy lwybrau bysiau, trenau a theithio llesol ac yn cymryd yr amseroedd teithio rhwng aneddiadau i ystyriaeth. Mae Ffigur 6 yn dangos lleoliad a dosbarthiad clystyrau aneddiadau wedi'u hysbysu gan yr hierarchaeth aneddiadau gychwynnol.

**Ffigur 6 Map yn Dangos Lleoliad a Dosbarthiad Clystyrau Aneddiadau, ynghyd â Grwpiau Eang a Gorgyffyrddiadau.**




Ffynhonnell: papur Dadansoddi Clystyrau (CSP, 2023)

4.28 Nod y dadansoddiad clystyrau yw nodi'r aneddiadau hynny sydd wedi'u cysylltu'n dda ag aneddiadau haen uchaf, y cyfeirir atynt fel 'clystyrau aneddiadau'. Gan ddefnyddio'r dull hwn, gellid nodi ardaloedd gwledig fel ardaloedd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r clystyrau aneddiadau fel y'u nodwyd yn y papur Dadansoddi Clystyrau. Mae Atodiad 1 yn rhestru'r aneddiadau sydd y tu allan i'r clystyrau aneddiadau. Mae cyfanswm o 85 o aneddiadau wedi'u categoreiddio'n wledig yn ardal CDLI Powys. Darperir map yn dangos yr ardaloedd gwledig sydd y tu allan i glystyrau yn Ffigur 7 isod.

## Casgliadau ar nodi ardaloedd gwledig


4.29 Ystyrir bod nodi ardaloedd gwledig yn seiliedig ar y dull 13 ardal leol, dwysedd poblogaeth, maint aneddiadau, ardaloedd adeiledig neu Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn rhy syml. Ni fyddai'r dulliau hyn yn cydnabod y gwahanol raddau o wledigrwydd o fewn ardal CDLI Powys.

4.30 Cesglir mai'r ffordd fwyaf priodol o nodi ardaloedd gwledig yw drwy nodi'r aneddiadau hynny sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r clystyrau aneddiadau fel y'u nodwyd yn y papur Dadansoddi Clystyrau. Mae rhai aneddiadau wedi'u lleoli'n agos at yr aneddiadau haen uchaf ac mae ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth cryfach. Nod y dadansoddiad clystyrau yw nodi'r aneddiadau hynny sydd wedi'u cysylltu'n dda ag aneddiadau haen uchaf.

4.31 Bydd ardaloedd gwledig yn cael eu diffinio fel yr aneddiadau hynny nad ydynt mewn clystyrau aneddiadau. Gan ddefnyddio'r dull hwn, mae 85 o aneddiadau yn y categori gwledig a dangosir eu lleoliad ar y map yn Ffigur 7 ac fe'u rhestrir yn Atodiad 1 y papur hwn.

4.32 Dylid cadw mewn cof bod ardaloedd o Gefn Gwlad Agored y tu allan i aneddiadau o fewn yr ardaloedd gwledig diffiniedig ac o fewn yr ardaloedd a gwmpesir gan glystyrau aneddiadau, lle bydd datblygiad yn parhau i gael ei reoli'n llym. Bydd datblygiadau tai fel rheol ddim ond yn cael eu caniatáu mewn Cefn Gwlad Agored lle ceir addasiadau, neu ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig a Datblygiadau Un Blaned.

### Ffigur 7 Lleoliad ardaloedd gwledig y tu allan i glystyrau



# 5. Anghenion gwledig

## Anghenion tai


5.1 Yn ôl y Gofrestr Tai Cyffredin (a adnabyddir hefyd fel Cartrefi ym Mhowys), a ddefnyddir i ddyrannu tai cymdeithasol, ym mis Medi 2023, mae 1,920 o bobl wedi'u cofrestru fel rhai sydd angen tai (bandiau 1-3) ar draws ardal gyfan Awdurdod Unedol Powys (gan gynnwys PCBB).

5.2 Mae'r angen mwyaf yn y trefi mwy, ond cofnodir angen mewn aneddiadau llai hefyd. Darperir y ffigurau angen tai ar gyfer aneddiadau categori gwledig (Atodiad 1) yn Atodiad 2. Mae'r rhain yn dangos, lle nodwyd aneddiadau categori gwledig fel dewis cyntaf aelwyd, bod rhywfaint o angen am dai cymdeithasol yn yr anheddiad. Mae aelwydydd yn llai tebygol o ddewis anheddiad fel dewis cyntaf os nad oes unrhyw dai cymdeithasol presennol ar gael yn yr anheddiad hwnnw, sy'n wir mewn llawer o aneddiadau gwledig llai.

5.3 Yn ogystal â'r Gofrestr Tai Cyffredin, mae cofrestr ar wahân yn bodoli ar gyfer aelwydydd sydd angen mathau canolradd o dai fforddiadwy, a adnabyddir fel Tai Teg. Mae cofrestr Tai Teg yn nodi'r angen am amrywiaeth o gynlluniau, gan gynnwys rhent canolradd, rhanberchnogaeth, rhannu ecwiti, eiddo Adran 106 gostyngol a hunan-adeiladu fforddiadwy. Mae 129 o aelwydydd o Bowys ar gofrestr Tai Teg ar hyn o bryd sy'n barod i wneud cais am dai fforddiadwy.

5.4 Mae Ffigur 8 yn dangos sut mae prisiau tai wedi newid ym Mhowys ers mabwysiadu'r CDLI yn 2018 yn ôl Mynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir (sy'n cynnwys ardal PCBB). Yn dilyn cynnydd graddol rhwng 2018 a 2020, cynyddodd prisiau'n sylweddol rhwng 2020 a 2022. Fodd bynnag, mae prisiau wedi dechrau gwastadu a nodwyd mân ostyngiad rhwng 2022 a 2023.

### Ffigur 8 Prisiau Tai Cyfartalog (trefol a gwledig) ym Mhowys ers mabwysiadu'r CDLI




Ffynhonnell ddata: Mynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir

5.5 Mae prisiau tai wedi eu gwthio i fyny yn ystod pandemig Covid-19 wrth i bobl geisio symud o ardaloedd trefol i gefn gwlad a hefyd oherwydd galw gan bobl yn prynu ail gartrefi yng nghefn gwlad. Yn ôl cofnodion treth gyngor, ceir 1,411 o ail gartrefi trethadwy ym Mhowys o gyfanswm o 66,101 o gartrefi. Mae'r gyfran uchaf o ail gartrefi i'w gweld mewn rhai o gymunedau gwledig ac aneddiadau bach y Sir yn hytrach na mewn aneddiadau mawr. Mae'r defnydd o eiddo preswyl fel llety gwyliau hefyd yn ychwanegu at y pwysau ar y stoc

dai wledig. Yn ôl cofnodion y dreth gyngor, mae 896 o eiddo pellach yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau tymor byr ym Mhowys. Mae hyn yn golygu bod ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn 3.5% o'r holl eiddo preswyl ym Mhowys. Mae hyn yn gwaethygu pwysau presennol ar fforddiadwyedd tai mewn cymunedau gwledig a mynediad atynt. Mae rhagor o wybodaeth leol ar gael yn y papur Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr.

5.6 £33,458 yw'r incwm aelwyd cyfartalog ym Mhowys (CACI Paycheck 2021) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o £34,700 a chyfartaledd y DU o £40,257 ac mae 55% o aelwydydd yn ennill llai na chyfartaledd Powys. Mae hyn yn golygu bod y pris tai cyfartalog ym Mhowys fwy na saith gwaith incwm cyfartalog aelwydydd lleol.

5.7 Mae Tabl 3 yn dangos sut mae cymhareb fforddiadwyedd tai yn amrywio ar draws y 13 ardal leol.

**Tabl 3 Cymhareb Fforddiadwyedd fesul Ardal Leol**

| Ardal Leol | Incymau Aelwyd Cyfartalog | Prisiau Tai Canolrifol | Cymhareb fforddiadwyedd |
|---|---|---|---|
| **Aberhonddu** | £34,443 | £226,937 | 6.6 |
| **Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd** | £33,089 | £227,431 | 6.9 |
| **Crucywel** | £42,116 | £346,091 | 8.2 |
| **Y Gelli Gandryll a Thalgarth** | £36,333 | £266,985 | 7.3 |
| **Trefyclo a Llanandras** | £31,678 | £217,543 | 6.9 |
| **Llandrindod a Rhaeadr** | £30,367 | £182,934 | 6.0 |
| **Llanfair Caereinion** | £35,448 | £212,599 | 6.1 |
| **Llanfyllin** | £34,241 | £239,792 | 7.0 |
| **Llanidloes** | £32,534 | £212,599 | 6.5 |
| **Machynlleth** | £32,164 | £186,887 | 5.8 |
| **Y Drenewydd** | £31,788 | £176,012 | 5.5 |
| **Y Trallwng a Threfaldwyn** | £34,731 | £202,710 | 5.8 |
| **Ystradgynlais** | £30,140 | £138,436 | 4.6 |

Ffynhonnell: Caci Paycheck 2021 a Data Pris a Dalwyd am Dai y Gofrestrfa Tir 2020-2022

5.8 Mae'r gymhareb fforddiadwyedd yn is yn yr ardaloedd lleol sy'n cynnwys aneddiadau mwyaf y Drenewydd, y Trallwng ac Ystradgynlais (gweler Tabl 1), ac mae ardaloedd lleol eraill sy'n fwy gwledig eu natur yn dueddol o fod â chymarebau fforddiadwyedd uwch, sy'n golygu nad yw pobl leol yn gallu fforddio eiddo marchnad yn yr ardaloedd gwledig hynny. Mae hyn yn amlygu'r angen am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig y bydd angen i'r CDLl Newydd fynd i'r afael ag ef.

5.9 Ceir swyddogaeth hefyd i gynlluniau tai a arweinir gan y gymuned a allai o bosibl ddiwallu anghenion lleol cymunedau gwledig. Mae cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned yn rhannu tair egwyddor gyffredin:

- Gofyniad bod ymgysylltiad a chydsyniad cymunedol ystyrlon yn digwydd drwy gydol y broses.
- Bod y grŵp neu sefydliad cymunedol lleol yn berchen ar y cartrefi, neu'n eu rheoli neu'n eu stiwardio, ac yn y modd y maent yn ei ddewis.
- Gofyniad bod y manteision i'r ardal leol a/neu gymuned benodedig wedi'u diffinio'n eglur a'u diogelu'n gyfreithiol am byth.

5.10 Mae tai a arweinir gan y gymuned yn cynnwys amrywiaeth o wahanol opsiynau tai, ac mae modelau nodweddiadol yn cynnwys Mentrau Tai Cydweithredol, Cyd-drigo, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, Sefydliadau Rheoli Tenantiaid, a Datblygiad Un Blaned.

5.11 Mae'r rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi (Cwmpas) yn cefnogi nifer o grwpiau tai a arweinir gan y gymuned sy'n dod i'r amlwg ym Mhowys, gan gynnwys Cyd-drigo Llanbrynmair sy'n canolbwyntio ar ddarparu cartrefi addas ar gyfer pobl hŷn, pobl ifanc a theuluoedd ym mhentref Llanbrynmair, a Cyd-drigo Machynlleth sydd eisiau creu datblygiad Cyd-drigo cynaliadwy i bobl â chysylltiad lleol â'r dref sy'n cael trafferth yn dod o hyd i dai y gallant eu fforddio. Mae Tabl 4 yn rhestru'r gweithgarwch tai a arweinir gan y gymuned y mae Cwmpas yn ymwybodol ohono yn ardal Powys:

**Tabl 4 Cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned ym Mhowys**

| Enw'r cynllun | Nifer y cartrefi | Cam Datblygu |
|---|---|---|
| Cyd-drigo Llanbrynmair* | 10 | Nodi Safle |
| Cyd-drigo Machynlleth | I'w gadarnhau | Nodi Safle |
| Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Bronllys* | I'w gadarnhau | Nodi Safle (yn gysylltiedig ag uwchgynllun Ysbyty Bronllys) |
| Menter Dai Gydweithredol Dyfi | 4 | Nodi Safle |
| Menter Dai Gydweithredol Tir Cyffredin Machynlleth | 7 | Byw ac wedi'i feddiannu |

| | | |
|---|---|---|
| Cyd-drigo Neuadd Dôl-llys Llanidloes | 7 | Byw ac wedi'i feddiannu |

*Mewn ardal wledig fel y'i diffinnir gan y papur cefndir hwn.

5.12 Gallai'r CDLI Newydd gymryd i ystyriaeth sut i alluogi cynlluniau tai graddfa fach a arweinir gan y gymuned mewn aneddiadau categori gwledig i ddiwallu anghenion lleol.

## Poblogaeth sy'n heneiddio / Cymunedau â Chydbwysedd Oedran

5.13 Yn ôl y 'Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad ar Lety i Boblogaeth sy'n Heneiddio' (Cyngor Sir Powys, Mawrth 2017), mae 34,158 o bobl yn 65 oed a hŷn ym Mhowys ac erbyn 2036, rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 38% i 47,1651. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod cynnydd rhagamcanol yn yr ysgol 75 oed a hŷn, ac y bydd y boblogaeth 85 oed a hŷn yn fwy na dyblu. Mae hyn yn golygu bod angen cynllunio ymlaen llaw a sicrhau bod y farchnad yn cynnig tai arbenigol o ansawdd da sy'n diwallu anghenion trigolion ac yn caniatáu iddynt fyw'n annibynnol am gyhyd ag y gallant. Mae'r Datganiad o Sefyllfa o'r farn bod dewis llety annigonol i fodloni'r galw rhagamcanol. Rhagwelir y byddai gwella dewisiadau llety yn arwain at lai o ofyniad am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

5.14 Mae'r Datganiad yn cyflwyno rhai egwyddorion allweddol:

- Dewis o ffordd o fyw a llety i bawb ni waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol personol
- Llety sy'n briodol ac yn diwallu'r angen.
- Amgylchedd sy'n cefnogi ac yn galluogi dewis o ffordd o fyw.
- Gallu symud i lety priodol pan fo'r amser yn iawn.
- Byw gartref gyda'ch drws ffrynt eich hun yn eich cymuned.
- Galluogi cymuned wirioneddol o oedrannau, deiliadaethau a galluoedd cymysg.
- Llety wedi'i leoli'n dda â mynediad rhwydd at amwynderau, gwasanaethau a thrafnidiaeth lleol.
- Llety wedi'i ddatblygu a'i ddarparu trwy weithio partneriaeth.
- Diogelu datblygiadau newydd ar gyfer y dyfodol, wedi'u hadeiladu yn unol â safonau cartrefi oes.
- Cyflawni'r uchod gyda'r defnydd gorau o adnoddau.

5.15 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau roi sylw i anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau. Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau yn rhanbarth Canolbarth Cymru ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau, ac i gynllunio ar gyfer darpariaeth tai arbenigol a sicrhau cymunedau â chydbwysedd oedran.

5.16 Gall byw mewn cymuned wledig fod yn arbennig o anodd i bobl hŷn a allai fod yn byw mewn llety anaddas nad yw'n diwallu eu hanghenion ac sydd wedi'i leoli oddi wrth amwynderau, gwasanaethau a thrafnidiaeth lleol. Bydd yr angen cynyddol am lety sy'n briodol ar gyfer pobl hŷn ac wedi'i leoli'n dda yn fater allweddol i'r CDLI Newydd fynd i'r afael ag ef drwy ei strategaeth, ei bolisïau a'i ddyraniadau.

## Cyflogaeth

5.17 Mae'r Asesiad Aneddiadau ac Aneddiadau Bach yn asesu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael mewn aneddiadau. Mae'r Asesiadau yn edrych ar y pellter rhwng yr anheddiad a'r ystâd ddiwydiannol neu barc busnes agosaf a pha un a oes unrhyw gyfleoedd gwaith yn yr

anheddiad ei hun. Gweler Asesiad o Anghenion Cyflogaeth Powys am ragor o wybodaeth leol.

5.18 Mae Cymru'r Dyfodol yn esbonio bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol, a chymesur mewn trefi gwledig sy'n cael ei gynllunio a'i reoli drwy'r system gynllunio. Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth sy'n deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion ar gyfer arallgyfeirio; egin fusnesau a microfusnesau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'n gryf datblygu busnesau a sectorau technoleg arloesol a newydd i helpu ardaloedd gwledig i ddatgloi eu potensial llawn, ehangu'r sail economaidd, a chreu swyddi sy'n talu mwy.

5.19 Mae diffyg cyfleoedd gwaith yn rheswm allweddol sy'n sail i ddiboblogi gwledig, yn enwedig yn y gweithlu iau; gall hefyd gyfrannu at amddifadedd ac anghydraddoldeb. Mae datblygu cyfleoedd lleol, yn enwedig mewn sectorau â chyflogau uwch, yn bwysig i gadw gweithwyr, i ehangu'r sail sgiliau ac i helpu i gynnal cymunedau. Mae Cymru'r Dyfodol yn datgan y dylai ardaloedd gwledig ddatblygu sail economaidd eang sy'n cefnogi sector sylfaenol cryf, diwydiant amaethyddiaeth a choedwigaeth, menter yn seiliedig ar dechnoleg arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, egin fusnesau a micro-fusnesau.

5.20 Mae'r economi sylfaenol yn rhan o'r economi sy'n creu ac yn dosbarthu nwyddau a gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer bywyd bob dydd. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd a diod, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr stryd fawr. Mae tua 40% o swyddi yng Nghymru yn y sector hwn. Gallai'r CDLI Newydd gymryd economi sylfaenol Powys i ystyriaeth, a sut y mae'n ymateb i anghenion gwledig.

## Amaethyddiaeth

5.21 Cyflogir 8,600 o bobl ym Mhowys ym meysydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, a physgota yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhag 2021) sy'n cyfateb i 14% o'r boblogaeth. Powys yw'r awdurdod lleol uchaf yng Nghymru o ran y diwydiannau hyn.

5.22 Mae Polisi 26 Cymru'r Dyfodol, yn ymwneud â Thyfu Economi Canolbarth Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu ystyried polisïau sy'n cefnogi mentrau gwledig traddodiadol amaethyddol ac ar y tir.

5.23 Mae Polisi 5, Cefnogi'r economi wledig yn nodi bod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig gan gynnwys cyflogaeth sy'n deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion ar gyfer arallgyfeirio; egin fusnesau a micro-fusnesau. Yn yr un modd, mae prosesu bwyd a diod lleol o gynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol yn ddiwydiant sy'n tyfu. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau a chyfleoedd newydd i wella neu ddatblygu cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu gwledig.

5.24 Mae Cymru'r Dyfodol yn esbonio bod arallgyfeirio yn cael ei gefnogi'n gryf i helpu i gynnal sector amaethyddol a choedwigaeth cynaliadwy a gwydn. Dylai polisïau i alluogi arallgyfeirio priodol gael eu cyflwyno mewn Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol. Bydd cefnogaeth i'r sector amaethyddol a'i gadwyni cyflenwi roi hwb i wytnwch trwy arallgyfeirio.

5.25 Nododd Adroddiad yr Adolygiad hefyd yr angen i'r CDLl Newydd gynnwys polisïau sy'n cefnogi arallgyfeirio priodol mentrau gwledig. Mae CDLl Mabwysiedig presennol Powys yn cynnwys polisi ar arallgyfeirio ffermydd (Polisi E6 y CDLl), y bydd angen ei ailystyried yn erbyn Cymru'r Dyfodol, egwyddorion creu lleoedd a newidiadau cyd-destunol eraill.

5.26 Mae Cymru'r Dyfodol yn esbonio bod yn rhaid i ni barhau i werthfawrogi a diogelu ein tir amaethyddol a sicrhau y gall ein bwyd a'n cynnal. Trwy ganolbwyntio twf graddfa fawr ar yr ardaloedd trefol, gellir cyfeirio pwysau datblygu oddi wrth gefn gwlad a gellir diogelu tir amaethyddol cynhyrchiol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisi i ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1-3a) rhag datblygiad.

5.27 Bydd y CDLl Newydd yn parhau i ddibynnu ar bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn ymwneud â datblygu amaethyddol, Anheddau Mentrau Gwledig a Datblygiad Un Blaned i asesu'r mathau hyn o ddatblygiad mewn Cefn Gwlad Agored. Fodd bynnag, bydd angen i'r ACLl ystyried, pan fo'n briodol, rhoi polisi priodol ar waith yn y CDLl Newydd yn ymwneud â datblygiad amaethyddol dwys, fel y cynghorwyd gan Lywodraeth Cymru yn y llythyr i Brif Swyddogion Cynllunio ym mis Mehefin 2019.

## Twristiaeth

5.28 Mae Asesiad Llesiant Powys (2022) yn cydnabod hamdden a thwristiaeth fel cyfranwyr mawr at economi leol Powys. Mae twristiaeth gweithgareddau yn tyfu'n gyflym yn yr ardal, a chyda rhannau o Fannau Brycheiniog, mynyddoedd Cambria, llawer o gyrsiau dŵr, a dau Lwybr Cenedlaethol (Clawdd Offa a Llwybr Glyndŵr) o fewn ei ffin, nid yw hyn yn syndod. Ceir llawer o fusnesau sy'n gysylltiedig â hamdden ym Mhowys sy'n cynnal 10% o economi twristiaeth Cymru ar hyn o bryd. Ym Mhowys, rhan wledig o Gymru sy'n brin ei phoblogaeth, mae'r incwm hwn yn hanfodol i lawer o gymunedau lleol.

5.29 Yn ôl Asesiad Llesiant Powys, roedd tair miliwn o ymwelwyr dydd a 960,000 o nosweithiau ymwelwyr a oedd yn talu (2021). Mae'r asesiad hefyd yn cyfeirio at adroddiad STEAM (2020) a ddywedodd bod 12.1 miliwn o ymwelwyr wedi gwario £1.012 biliwn ym Mhowys yn 2019, cyfartaledd o £84 y pen, a oedd £4 yn uwch na'r flwyddyn gynt. Yn ôl arolwg busnes Powys (2020), roedd 63% o'r busnesau a ymatebodd o'r farn bod eu busnes yn gysylltiedig â thwristiaeth. Mae polisïau cenedlaethol a lleol yn gefnogol o arallgyfeirio ffermydd wrth i lawer o ffermydd ddewis arallgyfeirio i'r sector twristiaeth.

5.30 Mae Cymru'r Dyfodol yn esbonio bod twristiaeth a hamdden yn cael eu hystyried fel cyflogwr a chyfrannwr mawr sy'n tyfu at economi wledig Cymru. Dylid archwilio mathau cynaliadwy o dwristiaeth, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gweithgareddau, werdd a diwylliannol. Mae'n esbonio bod gan Ganolbarth Cymru gyfoeth o asedau naturiol o harbyrau a dyfrffyrdd i fynyddoedd a thirweddau dynodedig, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gynnig twristiaeth rhagorol.

5.31 Mae polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn llawer o rannau o Gymru, a gall hefyd fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd:

> 'Mae'r system gynllunio'n annog twristiaeth os yw'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, ac yn cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol.'

5.32 Mae'n mynd ymlaen i esbonio bod datblygiad cysylltiedig â thwristiaeth priodol mewn cyrchfannau newydd yn cael ei annog. Mewn rhai mannau, fodd bynnag, efallai y bydd

angen cyfyngu datblygiad newydd i osgoi niwed i'r amgylchedd neu amwynder trigolion ac ymwelwyr.

5.33 Bydd angen i'r CDLl Newydd fynd i'r afael ag anghenion twristiaeth ardaloedd gwledig trwy ddarparu polisïau cefnogol a hyrwyddo mathau cynaliadwy o dwristiaeth.

## Trafnidiaeth

5.34 Mae'r Asesiadau Aneddiadau ac Aneddiadau Bach yn asesu'r lefel o drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd mewn aneddiadau ac yn eu cyffiniau. Maent yn edrych ar bresenoldeb llwybrau beicio neu balmentydd, llwybrau teithio llesol arfaethedig, gwasanaethau bysiau, gorsafoedd rheilffordd, agosrwydd at y rhwydwaith priffyrdd strategol a pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Mae gan aneddiadau sy'n sgorio'n dda yn y categori hwn botensial i leihau allyriadau carbon, hyrwyddo ffyrdd gweithgar o fyw, brwydro ynysigrwydd cymdeithasol a darparu cysylltiadau â mannau allweddol (h.y., cyflogaeth, cyfleusterau meddygol, addysg neu hamdden).

5.35 Mae'r papur cefndir Dadansoddi Clystyrau yn edrych ar amseroedd teithiau ar fysiau a threnau, a cherdded a beicio ar hyd llwybrau teithio llesol, rhwng aneddiadau Haenau 3-5 ac aneddiadau Haen 1 a Haen 2. Mae hwn yn nodi pa aneddiadau sy'n ffurfio clwstwr â phob un o'r aneddiadau Haen 1 a Haen 2. Mae'r papur dull gwledig hwn yn canolbwyntio ar y dull o ymdrin â'r ardaloedd hynny nad ydynt yn ffurfio clystyrau aneddiadau. Yn y lleoliadau mwy anghysbell hyn, efallai y bydd cyfleoedd o hyd i wella teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus mewn cysylltiad â datblygiadau newydd. Bydd y cyfleoedd ar gyfer seilwaith cerbydau allyriadau isel iawn a photensial band eang i leihau'r angen i deithio yn cael eu hystyried hefyd.

5.36 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn cyflwyno hierarchaeth trafnidiaeth sy'n blaenoriaethu cerdded a beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn uwch na cherbydau allyriadau isel iawn a cherbydau modur preifat eraill. Mae'n cydnabod y bydd angen gwahanol ddulliau o ymdrin â thrafnidiaeth gyhoeddus mewn gwahanol rannau o Gymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

5.37 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau gyflwyno yn eu cynllun datblygu strategaeth cynllunio a thrafnidiaeth integredig, sy'n rhoi manylion sut y bydd yr ACLl yn:

- integreiddio a chydgysylltu trafnidiaeth gyhoeddus a chynllunio defnydd tir;
- hwyluso a hyrwyddo hygyrchedd i bawb;
- lleihau'r angen i deithio;
- lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat;
- blaenoriaethu a chefnogi cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus;
- cynorthwyo pobl i fanteisio ar Gerbydau Allyriadau Isel Iawn;
- lleihau llygredd a gludir yn yr awyr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth; a
- hwyluso'r ddarpariaeth o seilwaith trafnidiaeth a gwelliannau a datblygiadau angenrheidiol i drafnidiaeth gynaliadwy.

5.38 Gweler y Papur Cefndir Strategaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth Integredig am ragor o wybodaeth.

5.39 Mae cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn brin mewn cymunedau gwledig ac fel y nodir ym Mholisi 4 Cymru'r Dyfodol, efallai y bydd angen rhywfaint o dwf i ddiwallu eu hanghenion. O dan yr amgylchiadau hyn, gallai fod yn angenrheidiol cael dull amgen ar gyfer ardaloedd gwledig.

5.40 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod i'r mwyafrif o ardaloedd gwledig bod y cyfleoedd ar gyfer lleihau defnydd o geir a chynyddu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy prin nag mewn ardaloedd trefol. Cynghorir y dylai canolfannau gwasanaethau lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad gweithredol cynaliadwy, gael eu dynodi gan awdurdodau lleol fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gan gynnwys y ddarpariaeth o dai a chyflogaeth.

5.41 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynd ymlaen i esbonio y bydd angen gwahanol ddulliau o ymdrin â thrafnidiaeth gynaliadwy mewn gwahanol rannau o Gymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac y bydd angen i ddatblygiadau newydd adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol sy'n dymuno tyfu pentref gwledig, er bod ganddo hygyrchedd cyfyngedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus, weithredu'r hierarchaeth trafnidiaeth trwy: ystyried yn gyntaf sut y gallai lleoliad a dyluniad datblygiad newydd annog cerdded a beicio i siopau a gwasanaethau yng nghanol y pentref; yna ystyried a ellid lleoli datblygiad newydd yn agos at safle bws neu alluogi gwelliannau i'r gwasanaeth bysiau; cyn ystyried yn olaf anghenion cerbydau modur preifat, gan gynnwys mesurau i annog y defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn.

5.42 Mae Cymru'r Dyfodol yn gweld aneddiadau gwledig cynaliadwy fel mannau hygyrch, sydd wedi'u cysylltu'n dda â'r ardaloedd ehangach y maent yn eu gwasanaethu. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol o well dulliau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol ond yn cydnabod efallai mai teithio mewn car fydd yr unig ddull teithio realistig i rai, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cefnogi buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a rhwydweithiau gwefru cerbydau i gefnogi cerbydau allyriadau isel iawn. Bydd hefyd yn cefnogi buddsoddiad yn y rhwydwaith ffyrdd lle mae hyn yn angenrheidiol i gynnal neu wella hygyrchedd gwledig, cynaliadwyedd a llesiant cymunedol.

## Mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau

5.43 Mae dros hanner poblogaeth Powys (58.7%) yn byw mewn pentrefi, pentrefannau neu aneddiadau gwasgaredig. Mae ardaloedd gwledig yn fwy difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau nag ardaloedd mwy trefol. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Rhoddwyd yr ardaloedd bah hyn yn eu trefn yn ôl Categori Mynediad at Wasanaethau Malc ac yn dangos yn gyffredinol bod 75% (59) o LSOAs ym Mhowys ymhlith y mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau yng Nghymru gyfan. Mae 9 LSOA ym Mhowys yn y 30 LSOA uchaf ar gyfer y mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Dyma nhw:

### Tabl 5 Safleoedd LSOAs o ran Mynediad at Wasanaethau

| LSOA | Safle |
|---|---|
| Bugeildy | $2^{il}$ |
| Llanbrynmair a Banwy | $8^{fed}$ |
| Diserth a Thre-coed | $9^{fed}$ |

| | |
|---|---|
| Llansilin | 12fed |
| Llangynllo | 17eg |
| Ysgir* | 19eg |
| Nantmel | 21ain |
| Llanelwedd | 22ain |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant | 24ain |

*Yn rhannol o fewn PCBB.

5.44 Mae'r Asesiad Aneddiadau yn asesu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael mewn aneddiadau Haenau 1-3. Mae'n edrych ar y math o ganolfan fanwerthu o fewn yr anheddiad (ardal, rhanbarth neu leol) a phresenoldeb cyfleusterau addysgol, cyfleusterau meddygol, cyfleusterau manwerthu a chyfleusterau cymunedol eraill yn yr anheddiad.

5.45 Mae'r Asesiad Aneddiadau Bach yn asesu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael mewn aneddiadau bach (Haenau 4-6). Mae'n edrych ar bresenoldeb defnyddiau manwerthu, neuaddau cymunedol, ysgolion, swyddfa bost /banc, capeli/eglwysi, gorsafoedd petrol a pharciau chwarae mewn aneddiadau bach. Mae hefyd yn ystyried y pellter i'r ganolfan fanwerthu agosaf.

5.46 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru eisiau ardaloedd gwledig bywiog â gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n byw yno mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n mynd ymlaen i esbonio lle nad yw tau, cyflogaeth, gwasanaethau allweddol a seilwaith yn ddigonol i hwyluso anghenion y presennol neu'r dyfodol, neu na ellir cael gafael arnynt yn rhwydd, y gallai gwytnwch a chynaliadwyedd ardal gael eu tanseilio, gan arwain o bosibl at ddirywiad economaidd a chymdeithasol. Gallai hyn amlygu ei hun ar ffurf diboblogi gwledig, anghydbwysedd oed, amddifadedd, anghydraddoldeb neu ynysigrwydd cymdeithasol. Os bydd pobl yn symud i ffwrdd i chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill, gall hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau gael eu peryglu, yn enwedig mewn aneddiadau llai â sail gwsmeriaid gyfyngedig.

5.47 Mae CDLI Mabwysiedig Powys yn cynnwys polisi sy'n ceisio diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol (Polisi DM11 y CDLI). Mae'n sôn yn benodol am gyfleusterau hamdden cymunedol a dan do presennol, a siopau pentref, tafarndai neu wasanaethau. Mae'r polisi hwn yn arbennig o bwysig i ardaloedd gwledig lle mae'n annhebygol bod darpariaeth amgen yn bodoli. Caniateir colli'r cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol hyn dim ond mewn achosion lle archwiliwyd darpariaethau ac atebion amgen priodol ac y gwnaed gwaith marchnata digonol. Bydd angen i'r CDLI Newydd barhau â pholisi ar gyfer diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae monitro'r polisi presennol wedi nodi'r angen i egluro geiriad y polisi, i ystyried amserlenni marchnata i alluogi pryniant cymunedol, ac i restr gynhwysfawr o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol gael ei darparu.

## Darpariaeth band eang a symudol

5.48 Mae'r Asesiad Aneddiadau Bach yn cydnabod bod Powys yn awdurdod gwledig sy'n anghysbell yn bennaf, lle mae mynediad at gysylltedd digidol o bwysigrwydd arbennig. Mae darpariaeth band eang wedi ei gynnwys fel egwyddor allweddol, felly, yn y dull ar gyfer asesu aneddiadau bach. Mae band eang o ansawdd da yn rhoi mynediad i drigolion at

wasanaethau ar-lein fel hyfforddiant a gofal iechyd, yn hysbysu lleoliad busnesau, yn galluogi gweithio gartref a gall leihau'r angen i deithio. Ystyrir mai 30 megadid yr eiliad yw'r cyflymder gofynnol sydd ei angen i alluogi cysylltedd digidol effeithiol ar gyfer gweithio gartref, mynediad at wasanaethau a defnydd busnes.

5.49 Yn ôl Asesiad Llesiant Powys (2022), ni all 12% o eiddo ym Mhowys gael band eang 10 megadid yr eiliad, sef yr uchaf ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru (OFCOM, 2020). Nid oedd 20% o eiddo ym Mhowys yn gallu cael band eang 30 megadid yr eiliad, sef y gyfran uchaf yng Nghymru eto.

5.50 Yn ôl data Adolygiad Marchnad Agored 2021, roedd gan 69 (66%) o'r 104 o aneddiadau bach, gyflymder band eang o 30 megadid yr eiliad o leiaf ar gael ar gyfer pob eiddo yn yr anheddiad. Fodd bynnag, yn ôl Adolygiad 2021, nid oedd gan 12 o'r aneddiadau bach unrhyw signal band eang o 30 megadid yr eiliad neu fwy o gwbl. Pentre-elan, Norton, Llangedwyn, Llanfihangel, Coedway, Bugeildy, Llwyni, Nantmel, Felindre, Talerddig, Dolanog a Chefn Coch yw'r 12 anheddiad.

5.51 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynghori Awdurdodau Cynllunio i weithio gyda darparwyr cyfathrebu digidol i sicrhau bod anghenion ardaloedd gwledig yn cael sylw ac y cynllunnir ar eu cyfer trwy bolisïau yn y CDLI. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol (Polisi 14 Cymru'r Dyfodol) i alluogi cynnydd i signalau symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, â LIC, ACLlau a gweithredwyr telathrebu symudol yn cydweithio ar ddarpariaeth.

5.52 Bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried ei swyddogaeth o ran gwella signal band eang a symudol yn ardal yr ACLl.

# 6. Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion Pellach

Mae'r papur hwn wedi nodi dull o ddiffinio ardaloedd gwledig wedi'i hysbysu gan yr asesiadau aneddiadau a'r dadansoddiad clystyrau, gan ddefnyddio'r hierarchaeth aneddiadau cychwynnol.

Mae'n ystyried anghenion cymunedau gwledig o ran tai, cyflogaeth, amaethyddiaeth, twristiaeth, trafnidiaeth, mynediad at wasanaethau, a chysylltedd band eang a symudol.

Argymhellir y dylai'r CDLI Newydd ddatblygu fframwaith sy'n diwallu anghenion ardaloedd gwledig Powys drwy:

- Ddarparu cyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol a rhoi sylw i anghenion pobl hŷn a'r rhai ag anableddau tra'n sicrhau cymunedau â chydbwysedd oedran.
- Darparu'r gallu i ddarparu cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a diwallu anghenion busnesau gwledig lleol.
- Cefnogi sector Amaethyddol sy'n ffynnu gyda chyfle i arallgyfeirio'n briodol.
- Sicrhau bod datblygiadau twristiaeth wedi'u lleoli'n briodol ac yn gynaliadwy.
- Cefnogi datblygiad cysylltiadau cynaliadwy o fewn a rhwng aneddiadau gwledig.
- Diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.
- Gwella cysylltedd digidol ac opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy.

# Atodiad 1 Aneddiadau yn y Categori Gwledig

| Aneddiadau | Categori | Haen anheddiad gychwynnol yn y CDLl Newydd | Ffin ddatblygu o fewn y CDLl mabwysiedig presennol |
|---|---|---|---|
| **Abaty Cwm-hir** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Abercegyr** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Aberedw** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Aberhafesb** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Aberhosan** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Abertridwr** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Adfa** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Y Batel** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Bugeildy** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Bleddfa** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Bontdolgadfan** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Bochrwyd a Llys-wen** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Bronllys** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Bwlch-y-ffridd** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Carno** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Cefn Coch** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Cemaes** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Clatter** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Cleiro** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Comins-coch** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Caradog** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Cwm Llinau** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Cwm-bach** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Darowen** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Dolanog** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Dolau** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Pentre-elan** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Einsiob** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Felindre** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Felin-fach** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Ffynnon Gynydd** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Y Foel** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Y Bont-faen** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Pont Ffranc** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Fron Bank** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanfair Llythynwg** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Groesffordd** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Hundred House** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Llan** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Llanbadarn Fynydd** | Gwledig | 5 | Nac ydy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llanbister** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanbryn-mair** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Llan-ddew** | Gwledig | 4 | Nac ydy |
| **Llandeglau** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Llandysul** | Gwledig | 4 | Nac ydy |
| **Llanfihangel** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanfihangel Tal-y-llyn** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanfilo** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llangedwyn** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llangynllo** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llangynog** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Llanigon** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanrhaeadr-ym-Mochnant** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Llansilin** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Llanwddyn** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanwnnog** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llanwrin** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llawr-y-glyn** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Llowes** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Llwyni** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Capel Isaf** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Manafon** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Nant-glas** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Nantmel** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Felin Newydd** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Maesyfed** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Llannewydd** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Pencraig** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Castell-paen** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Pen-y-bont Llannerch Emrys** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Pen-y-bont-fawr** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Pontrobert** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Cei’r Trallwng** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Rhosgoch** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Sarn** | Gwledig | 4 | Nac ydy |
| **Sarnau, Sir Drefaldwyn** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Stepaside** | Gwledig | 4 | Nac ydy |
| **Talerddig** | Gwledig | 6 | Nac ydy |
| **Tanhouse** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Trefeglwys** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Tregynon** | Gwledig | 3 | Ydy |
| **Felindre (Sir Frycheiniog)** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Walton** | Gwledig | 5 | Nac ydy |
| **Hwytyn** | Gwledig | 6 | Nac ydy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Fan** | Gwledig | 5 | Nac ydy |

# Atodiad 2 Angen am Dai yn ôl Bandiau 1-3 y Gofrestr Tai Gyffredin

| Enw'r anheddiad | Haen anheddiad gychwynnol yn ôl yr Asesiad Aneddiadau Bach | Dewis 1af |
|---|---|---|
| Abaty Cwm-hir | 6 | 1 |
| Aberedw | 5 | 3 |
| Aberhafesb | 5 | 1 |
| Aberhosan | 6 | 0 |
| Abertridwr | 5 | 0 |
| Adfa | 5 | 0 |
| Bugeildy | 6 | 0 |
| Bochrwyd a Llys-wen | 3 | 4 |
| Bronllys | 3 | 9 |
| Bwlch-y-ffridd | 6 | 1 |
| Carno | 3 | 7 |
| Cefn Coch | 6 | 0 |
| Cemaes | 5 | 1 |
| Clatter | 5 | 1 |
| Cleiro | 3 | 4 |
| Cwm Llinau | 5 | 0 |
| Dolanog | 6 | 0 |
| Dolau | 6 | 0 |
| Einsiob | 5 | 0 |
| Felindre | 6 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Felin-fach | 5 | 0 |
| Y Foel | 5 | 0 |
| Llanfair Llythynwg | 5 | 0 |
| Hundred House | 6 | 0 |
| Llanbadarn Fynydd | 5 | 0 |
| Llanbister | 5 | 1 |
| Llanbryn-mair | 3 | 2 |
| Llan-ddew | 4 | 0 |
| Llandeglau | 6 | 0 |
| Llandysul | 4 | 1 |
| Llanfihangel | 5 | 1 |
| Llanfihangel Tal-y-llyn | 5 | 1 |
| Llanfilo | 5 | 0 |
| Llangynllo | 5 | 0 |
| Llangynog | 3 | 5 |
| Llanigon | 5 | 2 |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant | 3 | 13 |
| Llansilin | 3 | 2 |
| Llanwddyn | 5 | 0 |
| Llanwrin | 5 | 1 |
| Manafon | 5 | 2 |
| Nantmel | 6 | 0 |
| Maesyfed | 3 | 1 |
| Pencraig | 6 | 2 |
| Pen-y-bont-fawr | 3 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Pen-y-bont Llannerch Emrys | 5 | 0 |
| Pontrobert | 3 | 0 |
| Cei'r Trallwng | 5 | 1 |
| Rhosgoch | 5 | 0 |
| Sarn | 4 | 3 |
| Trefeglwys | 3 | 1 |
| Tregynon | 3 | 8 |
| Felindre | 5 | 0 |
| Y Fan | 5 | 0 |